
# TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

## Diffodd y Sêr – Haf Llewelyn

gan Elin Williams




cbac
wjec

# Cynnwys


**Rhagarweiniad** 2
**Cyfeiriadau defnyddiol** 3

**Cyflwyniad a chefndir**
- Deg pwynt pwysig! 4
- Cyfnod y nofel 5
- Barddoniaeth Hedd Wyn 15

**Cynnwys y nofel**
- Braslun o bob pennod 18
- Llinynnau stori'r nofel 22
- Taith Ellis Humphrey Evans yn y nofel 24

**Cymeriadau**
- Ffeil-o-ffeithiau 25
- Pwy sy'n perthyn 33
- Sut berson yw Ellis? 34
- Sut berson yw Anni? 36
- Stori Ifor 38

**Themâu**
- Newid – cymeriadau a chymdeithas 40
- Effaith y rhyfel 44
- Ugain dyfyniad pwysig 47

**Arddull**
- Dadansoddi arddull 52
- Enghreifftiau o nodweddion arddull 56
- Arddull llythyr Ifor 60

**Gweithgareddau**
- Ai nofel ddigalon yw hi? 62
- Cwis manylion bach 63
- Cwis manylion bach - atebion 38
- Craffu ar y broliant 73
- Craffu ar y clawr 74
- Cytuno? Gwaith meddwl! 75
- Cardiau trwco/ffeirio 78

**Atodiad**
- Adolygu cymeriad 80
- Adnabod nodweddion arddull 86
- Craffu ar y geiriau 87
- Geiriau dieithr 89

# Rhagarweiniad

Bwriad y nodiadau a'r gweithgareddau hyn ar y nofel *Diffodd y Sêr* yw bod o gymorth i ymgeiswyr fydd yn astudio'r nofel ar gyfer yr arholiad TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Disgwylir y bydd athrawon yn ychwanegu at y nodiadau ac yn eu haddasu yn ôl anghenion eu disgyblion ac yn defnyddio'r templadau a'r gweithgareddau gydag enghreifftiau newydd sbon.

Gobeithir y bydd y cynnwys yn sbarduno'r ymgeiswyr i ddadansoddi'r nofel mewn dyfnder ac i feddwl yn annibynnol.

# Cyfeiriadau defnyddiol

Gwybodaeth Parc Cenedlaethol Eryri ar yr Ysgwrn: http://goo.gl/mJ7O2e

Fideo Amgueddfa Cymru am Hedd Wyn – Cefndir y rhyfel, Gerald Williams, ei nai, yn ateb cwestiynau, isdeitlau Saesneg (Un gwall yn yr isdeitlo – wedi rhoi Netherlands yn lle Litherland!): http://goo.gl/EzwyPj

Hanes Hedd Wyn yn gryno: http://goo.gl/ZnhKqE

Hanes Ellis Williams o Drawsfynydd a anafwyd yng Nghoedwig Mametz yn 1916 (fel Ifor). Mae lluniau yn mynd gyda'r erthygl yn dangos effaith llawdriniaeth gosmetig ar ei wyneb wedi'r clwyfo. Darlledodd S4C raglen deledu ar Ellis Williams yn 2014 (**Ellis Williams – y claf cyntaf**): http://goo.gl/cHPZpX

Pecyn o glipiau a gweithgareddau i gynorthwyo athrawon a disgyblion wrth iddynt astudio'r ffilm 'Hedd Wyn' ar gyfer arholiad llafar TAG UG Cymraeg.: http://goo.gl/bCTdN5

Ffilm: **Hedd Wyn** (1992)

Llyfr: **Stori Hedd Wyn, Bardd y Gadair Ddu**, Alan Llwyd, Cyhoeddiadau Barddas

# DEG PWYNT PWYSIG!

1. Mae'r nofel yn dechrau yn Ionawr 1917 ac yn gorffen ym Medi 1918.

2. 'Hanes Hedd Wyn' yw'r is-deitl ar y clawr. Mae ei 'hanes' yn dechrau gydag Ellis yn enlistio yn y fyddin ac ar y diwedd mae'n cael ei ladd.

3. Yr un person yw Ellis, Elsyn a Hedd Wyn. Hedd Wyn oedd enw Ellis pan oedd yn barddoni.

4. Ellis yw mab hynaf fferm yr Ysgwrn, Trawsfynydd a dyma'i goeden deulu.

Ifan = Mary

Ellis | Dafydd | Mary | Cati | Maggie | Bob | Ifan | Anni | Enid

5. Mae'r stori yn cael ei hadrodd o safbwynt Anni, un o chwiorydd Ellis.

6. Breuddwyd Ellis yw ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ystod y nofel mae'n gweithio'n galed ar ei awdl, 'Yr Arwr' ac mae'n llwyddo i'w gorffen. Mae'n ennill y gadair ar ôl iddo farw.

7. Mae is-blotiau yn y nofel e.e.
   a. stori Ifor, tad Lora, yn cael ei glwyfo'n ofnadwy a'i euogrwydd am na helpodd Gruff
   b. stori garu Hywel a Lora
   c. stori garu Ellis a Jini Owen.

8. Mae sôn yn y nofel am frwydrau mewn dwy ardal arbennig:
   a. Y Somme, Ffrainc. Yng Ngorffennaf 1916 bu brwydr fawr i amddiffyn Coedwig Mametz. Cafodd 4,000 o Gymry eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yno mewn un diwrnod. Dyna lle cafodd Ifor a Gruff eu clwyfo.
   b. Ypres, Gwlad Belg. Yng Ngorffennaf 1917 bu brwydr fawr i geisio cipio lle o'r enw Passchaendaele. Cafodd 3,000 o Gymry eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yno. Dyma lle lladdwyd Ellis/ Hedd Wyn.

9. Mae angen cofio rhai enwau llefydd pwysig yng Nghymru, Prydain ac Ewrop a gwybod beth ddigwyddodd yno yn enwedig: Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, Litherland, Coedwig Mametz, y Somme, Passchaendaele, Ypres.

10. Cafodd y Rhyfel Mawr effaith fawr ar fywyd pentref bach fel Trawsfynydd a gwelwn hyn yn y nofel.

Mae'n bosibl ymchwilio i gefndir y Rhyfel Mawr 1914-1918 er mwyn dod i ddeall y cefndir yn well. Ewch ati!

# Cyfnod y nofel

**Cyfathrebu**
- Llythyron
- Papurau newydd
- Telegram
- Sibrydion a hanesion ar lafar

**Crefydd**
- Band of Hope
- Rhodd Mam
- Gweddïo
- Y Beibl
- Rhagluniaeth
- Y Genhadaeth
- Cadw'r Sul

**Bwyd**
- Ceirch a thatws
- Wyau, llaeth a menyn
- Potes
- Pobi
- Ffrwythau o'r cloddiau
- Pethau melys

**Iechyd**
- Salwch
- Meddyginiaeth

**Ffermio**
- Peiriannau
- Gweithwyr
- Cynhyrchu bwyd

**Addysg**
- Cosb
- Oed gadael ysgol
- 'Colli' ysgol

**Gwisg**
- Ffwr
- Lliwiau
- Rhubanau
- Dillad gwlyb

Roedd amgylchiadau byw yn 1917 yn hollol wahanol i heddiw o ran cyfathrebu, crefydd, iechyd, ffermio, addysg a gwisg.



cbac wjec

# Cyfathrebu


Mewn oes heb deledu na radio a phan nad oedd ffonau yng nghartrefi'r bobl gyffredin, roedd hi'n anodd i bobl wybod beth oedd yn digwydd mewn rhannau eraill o Brydain a'r byd.

? Sut felly roedd pobl Trawsfynydd yn dod i wybod beth oedd yn digwydd yn y rhyfel a beth oedd yn digwydd i'r milwyr?

## 1. Llythyron

Cyffredinol:
Roedd y teuluoedd yn edrych ymlaen yn ofnadwy at dderbyn llythyron oddi wrth y bechgyn. Roedd clywed wrth Ellis yn gwneud i Anni deimlo, 'fel tasa yna ddarn bach ohono'n dod yn ei ôl i gegin yr Ysgwrn efo'r llythyr, fel taswn i'n gallu clywed ei lais o'n dweud ei fod o'n iawn...'. Ond y gwir yw bod y llythyron hyn yn cael eu sensro a bod swyddogion y fyddin yn edrych arnyn nhw cyn iddynt gael eu postio, ac yn torri unrhyw beth negyddol allan.

**Llythyron Ellis:**
Rydym yn clywed bod Ellis yn ysgrifennu adref yn gyson. Byddai pawb yn darllen y llythyron yn eu tro gan ddechrau gyda Tada ac yna Mam. Roedden nhw'n eithaf ysgafn ar y cyfan e.e. roedd e'n tynnu lluniau neu gartwnau bach doniol i Anni ac Enid ac roedd e'n ysgrifennu penillion bach i gyfarch pobl ar eu pen-blwydd. Roedd e'n ysgrifennu llythyron at Jini hefyd a hi dderbyniodd y llythyr olaf. Ynddo roedd pennill yn dweud pan fyddai'r rhyfel drosodd, byddai'n dod ati.



Mae un llythyr cyfan oddi wrth Ellis wedi ei gyflwyno yn y nofel ond nid yw'n dweud lle mae e achos 'byddai hynny'n dwyn sylw'r swyddogion'. Mae wedi ei ddyddio 21 Gorffennaf (lladdwyd ef ar 30 Gorffennaf).

Yn y llythyr mae'n:

- ceisio bod yn bositif – disgrifio harddwch y wlad
- cynnwys stori fach i Anni ac Enid am fachgen lleol y gwnaeth e gyfarfod ag e
- dweud iddo orffen ysgrifennu'r awdl
- diolch am y gacen ddanfonodd Maggie
- dweud wrthynt i beidio â phoeni gan ei fod yn gallu rhedeg yn gyflym.

Ond mae pethau dychrynllyd a thrist yn y llythyr hefyd e.e.

- llygod mawr
- y tir wedi troi'n gors ar ôl y bombardio a'r tywydd gwlyb
- problemau gyda dŵr yfed
- apêl ar Bob i beidio ag enlistio.

**Llythyr Ifor:**



Mae llythyr Ifor at Citi'n wahanol oherwydd iddo ysgrifennu'r llythyr pan oedd e gartref. Doedd e ddim yn gallu siarad am ei fod wedi ei anafu'n ddrwg a hefyd roedd yr holl brofiad yn brifo gormod. Mae'r llythyr hwn yn un gonest iawn sy'n rhoi'r manylion ofnadwy am yr hyn ddigwyddodd ym mrwydr gyntaf y Somme yng Nghoedwig Mametz ar 10 Gorffennaf 1916. Roedd e eisiau i'w wraig wybod yr hanes ac mae'r llythyr cyfan yn y nofel. Llythyr dyn sydd wedi cael ei siglo'n emosiynol a chorfforol yw hwn.

Doedd neb wedi gallu sensro'r llythyr hwn.

Mae'n sôn am

- fynd dros y top
- nwy
- dillad gwlyb
- chwain a llau
- llygod mawr
- y weiren
- croesi 'tir neb'
- dynion yn crio
- sŵn byddarol y gynnau mawr
- sgrechfeydd
- gwich y *shells*
- ceffylau'n disgyn
- dynion yn cael eu hanafu a'u lladd.

Mae'n dweud hefyd beth ddigwyddodd iddo fe a'i ffrindiau –

- Iori Park Place yn cael ei ladd
- Ted bach Park Place yn llawn ofn
- Gruff yn cael ei glwyfo
- wyneb Ifor yn cael ei chwalu
- teimlo'n euog am na lwyddodd i gadw at ei air a chael Gruff oddi yno.

## 2. Papurau newydd


DISASTROUS RAILWAY COLLISION AT ILFORD: PHOTOGRAPHS

The Daily Mirror

CERTIFIED CIRCULATION LARGER THAN ANY OTHER DAILY NEWSPAPER IN THE WORLD

SATURDAY, JANUARY 2, 1915 — One Halfpenny


H.M.S. FORMIDABLE SUNK IN THE CHANNEL BY MINE OR SUBMARINE: HEAVY LOSS OF LIFE.

Erbyn i'r papurau gyrraedd, byddai'r newyddion braidd yn hen. Roedd y straeon hefyd yn cynnwys y 'wybodaeth' roedd y llywodraeth **eisiau** i bobl ei chlywed. Roedd y papurau newydd yn llawn propaganda ac felly doedd y teuluoedd ddim yn gallu bod yn siŵr eu bod yn cael y gwir go iawn.

Ar ddechrau'r nofel, mae Anni fel petai'n credu'r straeon: '*Dwn i ddim* pam eu bod nhw angen cymaint o filwyr yn Ffrainc chwaith, achos mae'r papurau newydd i gyd yn dweud pa mor dda mae pethau'n mynd yno a bod Prydain Fawr yn ennill tir o hyd.'

Erbyn y diwedd, mae Anni wedi sylweddoli mai propaganda sydd yn y papurau: 'Wyddon ni ddim faint o goel i'w roi ar y papurau newydd erbyn hyn, mae cymaint o gelwydd wedi'i ddweud.'

## 3. Telegram


POST OFFICE TELEGRAPHS.

APR 28 1907

TO Sir Marcus Samuel Bart Portland Place Ldn

Meeting approved amalgamation statute gave full power directors subject to such modifications as might prove desirable or necessary hearty congratulations

Deterding Loudon Stuart

Neges fer iawn ar ddarn o bapur oedd telegram. Doedd dim lle i lawer o fanylion. Byddai negesydd arbennig yn dod ag ef at y person.

Mae Dodo Citi, mam Lora, wedi derbyn telegram ar ddechrau'r nofel yn dweud bod ei gŵr yn dod adref ond nid yw'r neges yn dweud pam. Does dim manylion am anafiadau Ifor.

## 4. Sibrydion a hanesion ar lafar

Gan nad yw'r bobl yn gallu dibynnu ar y newyddion mewn papurau newydd a bod llythyron ddim yn cyrraedd yn gyson, roedd llawer o siarad ymysg pobl, yn aml heb sail. Roedd pobl yn hel clecs hefyd – mae Gwen Jones a Wil Ffurat yn ddau sy'n mwynhau gofyn cwestiynau busneslyd a checran.

# Crefydd



Erbyn heddiw, mae llawer o eirfa crefydd yn anghyfarwydd i ni. Ond yn y cyfnod roedd crefydd yn bwysig ofnadwy ac yn rhan o'u bywyd yn ystod yr wythnos ac ar y Sul.

## 1. Band of Hope

Cyfarfod wythnosol oedd hwn ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddent yn dysgu mwy am y Beibl a sut oedd ymddwyn yn dda. Un o'r rhesymau dros gynnal y Band of Hope oedd dysgu plant am ddrygioni alcohol. Roedden nhw'n addo na fydden nhw fyth yn yfed alcohol (gwneud **amod dirwest**).




Ond byddai'n gyfle i'r plant gyfarfod yn gymdeithasol a chael hwyl hefyd e.e. dydyn nhw ddim yn ymddwyn yn dda iawn yn y nofel ac maen nhw'n chwarae'n wirion gan dynnu wynebau a phryfocio'i gilydd. Roedd yn gyfle hefyd i'r bechgyn a'r merched hynaf gyfarfod â'i gilydd e.e. mae Ifan, brawd Anni, 'wedi ffeindio cariad' ar ôl y Band of Hope ac mae'n gyfle i Lora ac Anni ddod i adnabod Hywel yn well.

## 2. Rhodd Mam


Llyfr i blant oedd hwn gyda chyfres o gwestiynau ac atebion yn dysgu am y Beibl a sut oedd ymddwyn. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgol Sul a bydden nhw'n gorfod dysgu darnau ohono ar eu cof.

## 3. Gweddïo

Mae Anni'n gweddïo pan fydd hi'n wynebu problemau. Mae hi'n amlwg eisiau teimlo'n well am bethau ac eisiau atebion. Mae hi'n dweud fod 'siarad efo Duw ychydig 'run fath â siarad efo chwaer fach... *Gei di'r farblen yna gen i os ei di i 'nôl dŵr yn fy lle i.* Ffeirio – dyna sut mae siarad efo Duw yn gweithio.'

## 4. Y Beibl

Mae copi o'r Beibl mewn lle amlwg ym mhob cartref ond yn y nofel mae pwrpas ymarferol iddo. Mae'n cael ei ddefnyddio i gadw llythyron, cerddi a darnau pwysig o bapur yn ymwneud â hanes y teulu.



## 5. Rhagluniaeth

Mae Mrs Lloyd yn cael sgwrs gydag Anni ar ôl iddi ddod â'r bag bach melfed yn ôl. Mae'n sôn am Ragluniaeth sef y syniad bod Duw wedi trefnu pethau ar ein cyfer ac na allwn ni reoli'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i ni. Roedd Anni cyn hyn yn credu bod cysylltiad rhwng dwyn y bag a'r ffaith bod Hywel a Lora yn dechrau mynd allan gyda'i gilydd. Roedd hi hefyd yn credu bod yr hances les yn dod â lwc iddi.

Mae Mrs Lloyd yn dweud nad ydi hi'n gallu dylanwadu ar y rhan fwyaf o bethau yn y byd. Mae hwn hefyd yn syniad tebyg i'r hyn sydd ym mhennill Hedd Wyn ar ddechrau'r nofel –

> *'Nid oes gennym hawl ar y sêr*
> *Na'r lleuad hiraethus chwaith.'*

## 6. Y genhadaeth

Roedd arian yn cael ei gasglu er mwyn talu am waith pobl a oedd yn mynd dramor i ddweud am Dduw – arian y genhadaeth. Yn y nofel, Gwen Jones sy'n gyfrifol am gasglu'r arian ac mae Anni'n cael y gwaith o fynd â'r arian iddi. Mae Gwen Jones yn amlwg eisiau gwneud gwaith 'da' ond yn anffodus, nid yw'n ddynes garedig o gwbl.

## 7. Cadw'r Sul

Doedd neb yn gweithio ar y Sul – 'Mae pawb yn rhy brysur yn gweddïo, yn gweddïo am eu pryderon bach cyfrin ac yn trio gwneud bargeinion efo Duw. Lle felly ydi Trawsfynydd ar ddydd Sul.'

# Bwyd

Bwyd syml oedd eu bwyd, a chynnyrch y fferm oedd llawer ohono. Roedden nhw hefyd yn defnyddio ffrwythau a oedd yn tyfu'n wyllt yn yr ardal. Bydden nhw'n rhannu bwyd ymysg ei gilydd ac yn hyn o beth roedden nhw'n gymdogion da.



## 1. Ceirch a thatws

Roedd cynhyrchu bwyd yn arbennig o bwysig adeg y rhyfel. Dyna un rheswm pam y daeth Ellis adref o Litherland am bythefnos i weithio ar y tir. Roedd angen 'mwy o geirch a thatws a phob dim ar gyfer y wlad' bryd hynny.



## 2. Wyau, llaeth a menyn

Rydyn ni'n clywed am Anni'n carthu (glanhau) o dan yr ieir ac yn mynd â wyau i Dodo Citi.

Hefyd, mae'n mynd i 'gorddi' (troi'r llaeth mewn peiriant arbennig gyda'i llaw) er mwyn gwneud menyn o'r llaeth.

## 3. Potes

Rhyw fath o gawl oedd hwn ac mae sôn yn y nofel am Mam yn rhoi llwyaid ychwanegol o botes i Ellis er iddo godi'n hwyr.

## 4. Pobi



Bara: Roedd bara yn rhan bwysig o'u deiet. Byddai'r merched yn mynd i siop Mrs Lloyd i brynu burum i'w mamau er mwyn gallu pobi bara gartref. Roedd rhaid cael burum ffres yn gyson er mwyn pobi'r bara.

Cacen ferw: Mae'r gacen yn cael ei lapio mewn papur llwyd i Ellis fynd gydag e i Litherland. Mae Maggie hefyd yn danfon cacen i Ellis allan yn Ffrainc.

## 5. Ffrwythau o'r cloddiau

Roedden nhw'n gwneud jam eirin (eirin = *plums*) a jam llus (llus = aeron bach du sy'n tyfu ar lwyni isel ar y mynydd/ llusi/ llysiau duon bach/ *winberries*) a byddent yn rhannu'r jam hwn ymysg ei gilydd. Yn y nofel,  mam Anni yn rhoi jam eirin i Gwen Jones a jam llus i Dodo Citi.

Roedden nhw hefyd yn gwneud tarten o'r ffrwythau ac yn gwneud diod ysgawen (*elderflower*).

## 6. Pethau melys

- 'Pethau da' maen nhw'n galw fferins/ losin/ da-da. Mae Jim yn cael licrish (*liquorice* sef losin du, blas cryf) gan Mrs Lloyd ac yn llwyddo i wneud llanast wrth ei fwyta.
- Maen nhw'n rhoi **triog** (*treacle*) ar frechdan (bara menyn i bobl y de).
- Maen nhw'n bwyta **mêl** ac roedd hwn yn werthfawr am ei fod yn gwella salwch hefyd e.e. fe helpodd Anni i wella o'i pheswch.





# Iechyd

## 1. Salwch

Roedd Tada'n dioddef o grydcymalau (ond roedd yn well pan fyddai'r tywydd yn braf a phan ddaeth Ellis adref). Hefyd roedd Anni wedi bod yn peswch llawer.

## 2. Meddyginiaeth

Roedden nhw'n credu (fel llawer o bobl heddiw) mewn meddyginiaethau naturiol e.e. mêl i wella annwyd ac roedd mam Anni wedi gwneud eli o ddail crynion (*Navelwort*) i wella clwyfau Ifor.

# Ffermio

## 1. Peiriannau

Roedd ceir yn dod yn fwy cyffredin ond dim ond mewn dinasoedd fel Lerpwl oedd hynny. Doedd Tada ddim eisiau gweld peiriannau'n dod i'r Ysgwrn ac roedden nhw'n gweithio gyda cheffylau o hyd e.e. i glirio coed. Mae Ifan yn frwdfrydig ynglŷn â pheiriannau ac yn cynrychioli'r genhedlaeth newydd sydd eisiau gweld newid.



## 2. Gweithwyr

Roedd angen llawer o help ar y tir gan nad oedd peiriannau i wneud y gwaith. Roedd Bob, Ellis ac Ifan yn ffermio gyda'u tad ac roedd y merched yn helpu eu mam gyda phethau megis edrych ar ôl y tŷ; gwneud y bwyd; 'nôl dŵr mewn bwcedi a charthu o dan yr ieir. Mae Tada'n dweud y bydd gwaith i Ifor ar y fferm gan fod Ellis wedi gadael. Ond doedd pobl y swyddfa ryfel ddim yn credu bod angen i gymaint o fechgyn aros gartref i helpu ac roedden nhw'n mynnu y byddai'n rhaid i Bob (pan fyddai'n ddeunaw oed) neu Ellis fynd.

## 3. Cynhyrchu bwyd

Roedd y gwaith o gynhyrchu bwyd yn bwysig iawn i'r ymdrech ryfel a dyna pam y cafodd Ellis ddod adref o Litherland i weithio yn yr Ysgwrn am ryw bythefnos yn Haf 1917.

# Ysgol ac Addysg

## 1. Cosb

Clywn am y prifathro'n rhoi'r gansen i Ned, brawd Lora, am nad oedd yn gallu sillafu 'Gallipoli' (un o'r ardaloedd ger Twrci lle roedd brwydro). Y gwir oedd bod Ned yn gwybod dim am y lle.

## 2. Oed gadael ysgol

Roedd y plant yn aml yn gadael yr ysgol yn 14 oed.

## 3. 'Colli' ysgol / absenoldeb

- Nid yw Lora'n mynd i'r ysgol ar ôl i'w thad ddod adref wedi ei glwyfo, ac mae'n gorfod helpu edrych ar ôl ei brawd bach a helpu yn y tŷ.
- Hefyd, pan ddaw Ellis adref o Litherland i helpu ar y fferm gyda'r aredig ac ati, nid yw Anni ac Enid yn mynd i'r ysgol. Mae llawer o waith bwydo'r gweithwyr ac mae angen eu help.
- Mae Hywel yn amlwg yn fachgen clyfar ond nid yw ei fam yn gallu fforddio ei gadw yn yr ysgol. Mae trefniadau'n cael eu gwneud iddo symud o Harlech a mynd yn was fferm yn Rhiwgoch pan fyddai'n 16.

# Gwisg

## 1. Ffwr



Mae'r menywod hŷn yn gwisgo ffwr. Siôl ffwr sydd gan fam Anni (wedi ei phrynu ar gyfer priodas) ac mae Gwen Jones yn gwisgo ffwr gyda wyneb llwynog arno.

## 2. Lliwiau

Roedd Gwen Jones yn gwisgo ffrog ddu gyda choler uchel – dillad parchus iawn. Roedd hyn yn wahanol iawn i'r dillad roedd Maggie yn eu disgrifio. Yn Lerpwl roedd llawer o'r merched yn dangos eu fferau/ pigyrnau ac roeddent yn gwisgo lliwiau llachar fel coch. Yn y Band of Hope dangosodd y gweinidog ddarlun o bobl ddrwg, ac ynddo roedd y merched yn gwisgo coch.

## 3. Rhubanau

Roedd Anni yn hoff iawn o bethau pert ac roedd anrhegion bach yn ei phlesio. Roedd hi'n arbennig o hoff o'r rhuban coch a wisgai yn ei gwallt.

## 4. Dillad gwlyb

Byddai'r dynion a oedd yn gweithio tu allan yn aml yn wlyb hyd y croen gan nad oedd ganddynt ddillad a oedd yn eu cadw'n sych.

# Barddoniaeth Hedd Wyn

Roedd Hedd Wyn yn fardd enwog yn ei ardal a byddai'n ysgrifennu penillion ar gyfer achlysuron arbennig ac i gyfarch pobl e.e. mae Enid yn cael pennill ar ei phen-blwydd.


Breuddwyd fawr Ellis oedd ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Pan oedd yn barddoni, byddai'n defnyddio'r enw Hedd Wyn.




*Cerdyn post o'r Ysgwrn yn 1917 gyda chadeiriau Hedd Wyn y tu allan. Roedd y cerdyn hwn ar werth i bobl Cymru er mwyn iddynt gofio'r bardd.*

## Ennill y Gadair

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1917 yn Birkenhead, y tu allan i Lerpwl. Mae'r lleoliad yn swnio'n rhyfedd i ni heddiw efallai gan fod Birkenhead yn Lloegr. Enillodd y gadair yma ym Medi 1917 ond bu farw Hedd Wyn cyn y seremoni a chyn iddo glywed ei fod wedi ennill. Galwyd yr eisteddfod hon wedyn yn 'Eisteddfod y Gadair Ddu'.


"Y GWIR YN ERBYN Y BYD."
"Iesu nad Gamwaith." "Calon wrth Galon."
"A laddo a leddir." "Duw a phob Daioni."
"Dan nawdd Duw a'i Dangnef."

EISTEDDFOD FRENHINOL GENEDLAETHOL CYMRU,
BIRKENHEAD,
MEDI 5, 6, a 7, 1917.
Y RHAGLEN SWYDDOGOL.

THE
Royal National Eisteddfod
OF WALES.
TO BE HELD AT BIRKENHEAD,
5th, 6th, and 7th SEPTEMBER, 1917.
THE OFFICIAL PROGRAMME.
Copyright—PRICE, 6d.; Post free, 7½d.
LIVERPOOL:
PRINTED AND PUBLISHED BY HUGH EVANS & SONS, "BRYTHON" OFFICE.

Roedd wedi ennill cadeiriau eraill mewn eisteddfodau llai cyn ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Birkinhead yn 1917, ond doedd e ddim wedi ennill y Genedlaethol. Roedd e wedi dod yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1916. I ennill y gadair roedd yn rhaid i Ellis ysgrifennu awdl.

## Awdl

'Cerdd hir, hir anodd ei deall ydy awdl', meddai Maggie. Wrth gwrs, does dim rhaid iddi fod yn anodd ei deall ond mae awdl yn hir. Roedd yr awdl a ysgrifennodd Ellis (neu Hedd Wyn, sef yr enw a ddefnyddiai wrth farddoni) bron yn 400 llinell. Hefyd roedd rheolau tyn iawn i'r awdl ac roedd yn rhaid iddi gael ei hysgrifennu mewn sawl 'mesur' gwahanol e.e. englyn, cywydd. Roedd yn rhaid cael cynghanedd ym mhob llinell.

## 'Yr Arwr'

Dyma oedd testun y gystadleuaeth yn 1917. Mae'r geiriau 'Yr Arwr' ar y gadair ei hun. Yn ystod y nofel mae Hedd Wyn yn ceisio cwblhau'r gerdd ac mae hyn yn ei roi o dan straen.

## Y Gadair Ddu



'Cadair dal a hardd ond does neb yn eistedd arni'. Dyna sut mae Anni'n ei disgrifio. Cafodd ei galw yn Gadair Ddu am fod blanced ddu wedi ei rhoi drosti pan gyhoeddwyd bod yr enillydd, Hedd Wyn, wedi marw allan yng Ngwlad Belg. Mae'r pren hefyd yn dywyll. Mae'n debyg iddyn nhw staenio'r pren yn dywyllach pan glywodd swyddogion yr Eisteddfod fod y bardd buddugol wedi marw.

Erbyn heddiw, mae'r gadair yn ein hatgoffa o hanes Hedd Wyn ond mae'n gwneud mwy na hynny. Fel y dywedodd Anni - 'Mi fydd hi yma'n atgof o Ellis Humphrey Evans, ein Elsyn annwyl ni. Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.'

## Hedd Wyn – y bardd anhrefnus

Doedd dim cyfrifiaduron yn y cyfnod i argraffu barddoniaeth a chadw fersiynau gwahanol yn drefnus ac felly roedd darnau o bapurau Ellis dros y lle yn yr Ysgwrn. Roedd y papurau hyn yn bwysig iawn i Ellis ac aeth â nhw gydag e i Litherland a Gwlad Belg er mwyn gorffen yr awdl. Dim ond Maggie oedd yn cael cyffwrdd â'i bapurau ac roedd hi'n help mawr i'w cadw'n drefnus.

## Cerddi eraill Hedd Wyn

Yn ogystal â'r awdl 'Yr Arwr', yn y nofel *Diffodd y sêr* mae sylw'n cael ei roi i ddau bennill bach o waith Hedd Wyn – 'Gwenfron a mi' a'r pennill ddanfonodd e at Jini yn ei lythyr olaf.

### Gwenfron a mi

'Mae Gwenfron a minnau yn hen erbyn hyn,
A'r hwyr ar ein pennau fel eira gwyn;
Mae'n llygaid yn llwydo fel dydd yn pellhau,
A nerth ein gewynnau o hyd yn gwanhau;
Ond, wele, mae'n cariad o hyd yn cryfhau.
I'r tiroedd di-henaint sy draw tros y lli
Rhyw symud yn dawel wna Gwenfron a mi.'

Mae Anni'n dod o hyd i'r pennill hwn o dan y bwrdd. Nid yw Ellis yn drefnus iawn ac mae'n dweud yn y nofel bod ei bapurau dros y lle i gyd!

**<u>Beth yw ystyr y gerdd?</u>**
Mae Hedd Wyn yn dychmygu ei fod e a'i gariad (Gwenfron – enw merch ddychmygol) yn mynd yn hen gyda'i gilydd ond bod eu cariad yn dal i dyfu. Dyma freuddwyd arall Ellis.

Ar ddiwedd y nofel mae mam Hedd Wyn yn mynd i'r Beibl mawr lle mae'n cadw'r gerdd ac mae'n ei rhoi i Anni i'w rhoi i Lora ar ddydd ei phriodas. Mae'n bosib gweld hyn fel diwedd hapus ac y bydd Lora a Hywel yn gallu tyfu'n hen gyda'i gilydd.

### Pennill Jini

'A phan êl y rhyfel heibio
Gyda'i gofid maith a'i chri,
Tua'r Ceunant Sych dof eto
Ar fy hynt i'ch ceisio chwi ...'

Mae'r pennill yn y llythyr olaf a ddanfonodd Ellis adref. Roedd Jini a'r teulu'n hapus pan welon nhw'r llythyr, ond y gwir oedd ei fod wedi marw'n barod a doedden nhw ddim yn gwybod hynny.

**<u>Beth yw ystyr y gerdd?</u>**
Mae'n dweud y bydd yn dod i chwilio amdani eto ar ôl i'r rhyfel orffen – awgrym o briodas efallai?

## Breuddwydion Ellis

1. Ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol – 'Yr Arwr'
2. Cael teulu a pharhau i fyw yn ardal Trawsfynydd yn dawel a hapus – 'Gwenfron a mi' a phennill Jini.

'... dyna oedd breuddwyd Ellis – cyfarfod rhywun, Jini ella, syrthio mewn cariad a chael cyfle i fyw, magu teulu, barddoni tipyn, a chael heneiddio gyda'i gilydd yn y diwedd. Ydy hynny'n ormod i'w ddisgwyl?'

*Mae un freuddwyd yn perthyn i fyd Hedd Wyn ac mae'r llall yn freuddwyn i Ellis y ffermwr cyffredin.



# Braslun o bob pennod

1. Mae teulu Lora wedi cael telegram bod ei thad ar y ffordd adref o'r rhyfel ond dydyn ni ddim yn cael gwybod pam. Mae Wil Ffurad yn amau hyn ac yn pryfocio Lora. Dydy Anni ddim yn dweud unrhyw beth ac mae Lora'n cael siom nad yw ei ffrind wedi ei chefnogi. Mae Lora'n crio felly mae Anni'n rhoi carreg wen i Lora er mwyn iddi deimlo'n well – carreg lwcus. Yna i'w chysuro'i hun, mae Lora'n cynllunio priodas gyda mab hynaf Lloyd George!

2\.

Daw Anni adref. Yno, mae Gwen Jones, gwraig o'r pentref,  yn cael paned gyda mam Anni. Maen nhw'n siarad am y ffaith fod tad Lora'n dod adref.  Un fusneslyd yw Gwen Jones ac mae'n holi Anni sut mae Lora. Ateb niwtral yw ateb Anni. Dysgwn fod mab Gwen Jones, sef Ben, yn ymladd yn Ffrainc ac felly mae hi'n chwerw ac yn genfigennus o deulu Lora.

Mae Gwen hefyd yn gwneud sylwadau slei am 'fechgyn ifanc, iach' oedd heb enlistio (beirniadu Ellis sydd y tu ôl i hyn). Rydyn ni'n clywed ei bod yn debygol y bydd yn *rhaid* iddo fynd – fe neu Bob, ei frawd. Y tribiwnlys fyddai'n penderfynu. Mae Mam wedi ypsetio. Penderfyna Ellis ei fod e'n mynd i Stiniog i enlistio y diwrnod wedyn. Mae pawb yn y teulu'n drist ac wedi cynhyrfu.

3\.

Cawn ein cyflwyno i Jim na fydd 'byth 'run fath yn union â hogia eraill'.

Rydyn ni'n clywed am effaith seicolegol y rhyfel ar rai milwyr – yr effaith ar eu meddyliau. Clywn hefyd am filwyr yn mynd *over the top* mewn brwydrau ac am filwr yn ei saethu ei hun yn ei droed er mwyn cael mynd adref. Mae Lora yn dweud wrth Anni bod ei thad wedi 'brifo ei ben' ond dydy hi ddim yn gwybod mwy na hynny. Mae Anni yn rhoi ei hances i Lora.

4\.

Ceir llawer o sôn yma am yr hwyl oedd i'w gael gydag Ellis a'r tynnu coes. Clywn hefyd am ei farddoni, am ei gariad Jini Owen, ac am y merched yn gwau. Ar ddiwedd y bennod, clywn ei fod yn mynd i Litherland ger Lerpwl y diwrnod wedyn er mwyn hyfforddi i fod yn filwr.

5\.

Mae'r teulu'n pacio pethau i Ellis fynd gydag ef i Litherland – dillad cynnes, bwyd a'i bapurau barddoni. Mae Ellis yn danfon Anni i dŷ Lora gydag wyau. Daw Dodo Citi i'r drws. Roedd Ifor, tad Lora, wedi dod adref ond mae'r profiad wedi siglo pawb. Daw Jim i'r tŷ a rhedeg i'r siambr. Mae'n gweld ei dad yno ac yn sgrechian yn wyllt. Caiff Anni ei thynnu at y siambr hefyd ac mae'n dychryn o weld bod cymaint o olwg ar wyneb Ifor. Yna daw Ellis i'r tŷ gan fynd i weld Ifor. Nid yw Anni eisiau iddo fynd i mewn.

6\.

Daw Wil a holi Lora am ei thad gan ofyn llawer o gwestiynau pryfoclyd. Mae'r merched yn cyfarfod Hywel sy'n aros gyda'i fodryb ac yn mynd i weithio fel gwas fferm. Maen nhw'n mynd i'w weld eto yn y Band of Hope.

Wrth gerdded gydag Ellis mae Anni'n teimlo'n euog ei bod yn hapus pan oedd Lora'n drist. Dywed Ellis wrthi i beidio â gadael i'r rhyfel dorri ei hysbryd ac iddi beidio newid.

# Braslun o bob pennod

## 7.

Mae Maggie wedi dychwelyd o Lerpwl ac yn adrodd hanesion am y lle. Rhaid i Anni ac Enid fynd i'r gwely ond mae Anni'n codi a gwrando ar sgwrs y lleill. Ifor, tad Lora, yw testun y sgwrs. Roedd e wedi cael y niwed pan saethwyd e yn ei wyneb. Mae Tada yn dweud y gall ddod i helpu ar y fferm.

Y tu allan ar ôl i bawb arall fynd i gysgu, mae Anni ac Ellis yn sgwrsio. Clywn am yr awdl y mae Ellis yn ei hysgrifennu, sef 'Yr Arwr'. Edrychant ar y sêr – mae Ellis yn dweud wrth Anni i edrych arnynt pan fydd e i ffwrdd yn Litherland. Dywed hefyd na all neb ddiffodd y sêr.

## 8.

Yn y Band of Hope mae llawer o sôn am 'ddirwest' ac mae'r gweinidog yn dangos llun iddynt o bobl dda a phobl ddrwg. Wedyn, mae Lora ac Anni'n siarad gyda Hywel. Roedd tad Hywel wedi bod yn ymladd ym Mametz, yn y Somme (fel tad Lora) ond mae nawr 'ar goll'.

Mae Jim gyda'i nain ac nid yw am fynd adre. Ond mae Anni a Lora'n mynd ag e. Yno, mae Dodo Citi yn sôn am Mametz, ond pan mae'n gwneud hyn mae drws y siambr yn cau– nid yw Ifor, y tad, eisiau clywed, mae'n amlwg.

## 9.

Mae Ellis yn gadael yr Ysgwrn ac yn mynd ar y trên i Litherland. Yn y cartref mae'r teulu'n ffarwelio ag e (nid yn yr orsaf). Ar ôl iddo fynd, mae Anni'n addo anrheg pen-blwydd arbennig i Enid (ond does dim byd ganddi ar y pryd).

Mae Anni ac Enid yn mynd â basged i dŷ Lora ar ôl i'w mam wneud eli i Ifor i'w roi ar ei glwyfau. Yn ôl Lora, mae ei thad yn gwella ychydig – mae'n yfed drwy welltyn ond yn gallu gwneud hebddo. Dydy e ddim yn gallu siarad yn iawn ond daeth Lora o hyd i rywbeth roedd e wedi ei ysgrifennu yn egluro beth ddigwyddodd. Roedd ei mam wedi rhoi ei lythyr rhwng cloriau'r Beibl mawr.

## 10.

Roedd Ifor yn adrodd ei hanes yn y llythyr (ffont llawysgrifen yn y nofel). Ynddo ceir hanes Ted bach a Gruff Wmffra. Rydyn ni'n clywed hefyd am sefyllfa gyffredinol y milwyr yn y ffosydd a'r hyn oedd yn rhaid iddyn nhw wneud wrth frwydro yn y Somme e.e. nod y frwydr, mynd 'dros y top'... Mae Ifor yn dweud hanes Gruff yn cael ei daro; am Ted ac Ifor yn helpu a cheisio mynd ag e i ddiogelwch; ac am Ifor yn cael ei saethu. Doedd Ifor ddim yn gwybod beth ddigwyddodd wedyn. Clywn hefyd fod mab gan Gruff ac roedd hwnnw'n gwneud yn dda yn yr ysgol.

## 11.

Ar ôl darllen y llythyr, mae Anni'n chwydu.

Mae Enid ac Anni'n mynd i'r siop gyda Jim i brynu burum i Dodo Citi (mam Lora). Mae Gwen Jones yno gyda'r llwynog ffwr ar ei hysgwyddau, ac Ellis yw testun ei sgwrs â Mrs Lloyd. Mae Anni'n dwyn bag bach melfed yn anrheg i Enid. Daw Hywel a Lora'n fwy na ffrindiau. Gan fod Wil Ffurat yn siarad am Ellis, mae Anni'n gwylltio ac yn ei wthio nes iddo ddisgyn i'r ffos.

cbac wjec

## 12.

Teimla Anni'n euog am y bag melfed. Dydy Anni a Lora ddim mor agos ag y buon nhw. Mae Lora wedi gorfod gadael ysgol i helpu gartref a hefyd mae'n treulio mwy o amser gyda Hywel. Aiff Anni â'r bag melfed yn ôl i'r siop ond mae Gwen Jones yn ei gweld yn gwneud hynny. Yn ffodus, mae Mrs Lloyd yn 'achub' Anni ac yn diolch iddi am ddod â'r bag roedd Maggie wedi ei gael yn Lerpwl! Ar ôl hyn, gwelwn Anni'n cael sgwrs gyda Mrs Lloyd. Mae'n sôn am Ragluniaeth (pethau wedi eu trefnu ar ein cyfer) a Dewis (ni sy'n penderfynu rhwng dewisiadau da a drwg). Mae Mrs Lloyd wedyn yn danfon Anni ar neges i dŷ Lora (eisiau i Anni fynd i siarad â Lora y mae hi, a'u cael i fod yn ffrindiau eto).

## 13.

Dywed Dodo Citi fod meibion ffermydd yn cael dod adref i helpu gyda'r aredig. Mae Anni a Lora'n siarad – dydyn nhw ddim wedi gwneud hynny ers tipyn. Dywed Lora ei bod hi a Hywel yn mynd i briodi pan fydd hi'n 16 (14 yw hi ar y pryd). Dydy hi ddim wedi dweud wrth ei mam. Mae Lora'n sôn am Hywel yn poeni bod ei dad yn dal 'ar goll'. Yna, mae Hywel ac Ifan (brawd Anni) yn cyrraedd ac mae Ifan yn dweud bod Ellis wedi dod adref.

## 14.

Mae Ellis gartref o Litherland yn yr Ysgwrn i helpu gyda'r aredig a thrin y tir. Mae pawb yn hapus. Gwelwn berthynas Jini ac Ellis yn datblygu ac mae hi'n galw yno'n aml. Mae Anni'n sylweddoli ar ôl darllen y penillion 'Gwenfron a mi' mai tyfu'n hen gyda Jini yw un o freuddwydion Ellis. Hefyd, mae Ellis yn ceisio gorffen ysgrifennu'r awdl ar gyfer Eisteddfod Birkinhead. Mae'r tywydd yn braf a'r wlad yn hardd.

## 15.

Dydy Citi, mam Lora, ddim eisiau iddi weld Hywel eto – byddai clywed amdano'n ypsetio Ifor. Mae Lora'n dweud nad yw hi'n mynd i wrando ar ei mam gan ofyn i Anni fynd â llythyr iddo. Dydy Anni ddim yn siŵr beth i'w wneud, ond yn y diwedd mae'n dewis rhoi'r llythyr i Hywel.

## 16.

Mae Ellis yn gorfod gadael. Daw Jini draw. Mae hi'n dweud wrtho i barhau gyda'r awdl. Mae Ellis yn gofyn iddi aros amdano a hithau'n dweud y byddai'n gwneud hynny.

## 17.

Gwelwn fod Wil Ffurat wedi newid – mae'n fwy sensitif ac yn amlwg yn poeni am Ellis. Mae e wedi aeddfedu. Mae Anni'n sôn wrtho am lythyrau Ellis a'r harddwch y mae'n ei weld o'i gwmpas yn Ffrainc e.e. blodau mewn hen *shell*. Maen nhw'n cwrdd â Lora sy'n dweud bod clwyfau ei thad yn gwella ond ei fod yn cael trafferth delio gyda'r ffordd mae'n edrych. Mae Gwen Jones wedi dweud wrth Citi bod Lora'n gweld Hywel ac yn ysgrifennu ato! Dywed Citi wrth Lora na fydd ei thad yn gwella tra bydd hi'n gweld Hywel.

Mae Lora, Jim ac Anni yn siop Mrs Lloyd. Daw gwraig ddieithr i mewn yn chwilio am Ifor Edwards, Tŷ'n Rhos – tad Lora. Mae Lora'n mynd adref gyda hi.

# Braslun o bob pennod

## 18.

Wrth i Jim ac Anni ddod yn agosach at y tŷ, daw'r wraig ddieithr i gwrdd â nhw. Mae Anni'n ei gweld yn cwrdd â Hywel. Roedd y ddynes wedi galw yno am fod Ted bach, Park Place, wedi dweud wrthi mai Ifor oedd un o'r bobl olaf i weld ei gŵr ym Mametz. Dychrynodd y ddynes pan welodd yr olwg ar Ifor a gadawodd y tŷ ar frys.

Mae Jim ac Anni'n mynd i'r tŷ. Yna mae Ifor yn siarad ac yn dweud yr enw Gruff Wmffra. Mae Jim yn chwerthin ac yn rhedeg draw i freichiau ei dad am y tro cyntaf ers iddo ddod adref. Chwerthin yw ymateb Citi hefyd.

## 19.

Mae Ellis yn ei lythyr yn adrodd hanes y brwydro (ond heb ddweud ble yn union mae e) a'r sefyllfa yn y ffosydd. Mae'n dweud ei fod wedi gorffen yr awdl a'i hanfon i'r eisteddfod. Clywn fod y teulu i gyd yn darllen ei lythyron yn eu tro.

Daw Lora a Hywel i gwrdd ag Anni. Rydyn ni'n dod i wybod mai mam Hywel oedd y ddynes ddieithr a bod Ifor (tad Lora) wedi sylweddoli mai mab Gruff Wmffra oedd Hywel. Roedd Ifor yn teimlo'n euog pan oedd e'n gweld Hywel am nad oedd wedi gallu achub Gruff Wmffra.

Dywed Hywel nad yw ei fam yn gallu derbyn na fydd ei gŵr yn dod adref. Mae Hywel yn cael croeso yng nghartref Lora nawr.

## 20.

Roedd sôn am Drydydd Cyrch Ypres yn y papurau a hanes un frwydr fawr a ddigwyddodd ar 30 Gorffennaf. Roedd llawer iawn wedi eu lladd ond roedd y papurau'n dweud fod y milwyr wedi gwneud yn dda (propaganda).

Daw Dodo Citi draw a dweud bod tad Hywel (Gruff Wmffra) yn fyw ac mewn ysbyty yn Lloegr. Mae Jini wedi derbyn llythyr gan Ellis ac ynddo roedd pennill yn dweud ei fod yn mynd i ddod yn ôl ati ar ôl y rhyfel. Mae pawb yn hapus... Ond roedd Anni wedi gweld y dyddiad ar y llythyr a sylweddoli ei fod wedi ei ysgrifennu cyn 30 Gorffennaf ac felly'n poeni'n dawel – a oedd Ellis yn dal yn fyw?

Mae Jini a Citi'n gadael ond daw negesydd i fyny am y fferm gydag amlen yn cynnwys newyddion drwg (marwolaeth Ellis, er nad yw'r awdur yn dweud yn blaen). Mae pawb yn drist. Edrycha Anni am y sêr ond maen nhw 'i gyd wedi'u diffodd'.

### Medi 1918

Mae Anni'n forwyn ym mhriodas Hywel a Lora. Mae Mam yn rhoi un o benillion Ellis yn anrheg briodas iddynt ('Gwenfron a mi'). Edrycha Anni ar y gadair a enillodd ei brawd, Ellis ac mae'n ei gweld fel 'atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.'

Mae hi'n mynd i godi carreg fach o'r llawr (fel y mae'n gwneud ar ddechrau'r nofel hefyd). Ond yna mae'n ei rhoi yn ôl. Sylweddola nad pethau felly sy'n creu lwc.

# Llinynnau stori'r nofel

## Stori Ellis

### Ionawr 1917

Ellis yn penderfynu enlistio yn Stiniog. Ymuno gyda'r Ffiwsilwyr Cymreig.

Pasio prawf meddygol a mynd i Litherland i'r gwersyll hyfforddi.

Yn dweud wrth Anni i edrych ar y sêr.

↓

### Chwefror - Ebrill 1917

Ellis i ffwrdd yn Litherland yn hyfforddi.

↓

### Mehefin 1917

Ellis gartref i helpu gyda'r aredig ar y fferm am bythefnos.

Ceisio gorffen awdl 'Yr Arwr'.

↓

### Gorffennaf 1917

Ellis yn hwylio o Southampton i Ffrainc ac yna ymlaen i Ypres.

Ymladd yn Nhrydydd Cyrch Ypres (brwydr i gipio Passchaendaele).

Marw yno o'i glwyfau.

↓

## Stori pobl Trawsfynydd

### Ionawr 1917

Clywn fod tad Lora'n dod adref.

Pan ddaw adref mae wedi ei glwyfo'n wael yn ei wyneb.

Mae Lora ac Anni'n cyfarfod Hywel.

↓

### Chwefror - Ebrill 1917

Anni'n dwyn y bag melfed ac yn ei roi yn ôl yn ddiweddarach.

Perthynas Lora a Hywel yn datblygu – eisiau priodi.

↓

### Mehefin 1917

Citi ddim yn fodlon i Lora weld Hywel eto. Y teulu'n clywed mewn llythyr i Ellis orffen yr awdl a'i hanfon i'r Eisteddfod.

↓

### Gorffennaf 1917

Gwraig ddieithr yn chwilio am gartref Lora.
Jim yn rhedeg i freichiau ei dad.

Dysgwn mai mam Hywel oedd y ddynes ddieithr ac mai Gruff oedd tad Hywel.

↓

## Awst 1917

Ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Birkinhead 1917, Eisteddfod y Gadair Ddu.

↓

## Medi 1917

Y gadair yn dod yn ôl i'r Ysgwrn ond heb Hedd Wyn /Ellis.

## Awst 1917

Teulu'r Ysgwrn yn poeni. Wedi clywed am frwydr fawr 30 Gorffennaf. Aros am lythyr.

Clywed bod Gruff yn fyw.

Jini wedi derbyn llythyr (ond dyddiad 21 Gorffennaf).

Derbyn llythyr yn dweud bod Ellis wedi marw.

↓

## Medi 1918

Priodas Hywel a Lora. Anni'n forwyn briodas.

* * *

**Nid yw'n dweud yn blaen mai Ionawr oedd hi ar ddechrau'r nofel. Sut ydyn ni'n gwybod felly mai Ionawr 1917 oedd hi?**

1. Roedd Lloyd George yn brif weinidog Prydain o Ragfyr 1916 ymlaen ac felly ni allai'r stori fod wedi dechrau cyn hyn. Mae Lora'n dweud, "Na, fasa mab David Lloyd George, y Prif Weinidog ei hun, ddim yn gorfod mynd i Ffrainc, siŵr."

2. Roedd Tad Hywel 'ar goll' ers chwe mis. Roedd brwydr gyntaf y Somme (yng Nghoedwig Mametz) wedi digwydd yng Ngorffennaf 1916.

3. Rydym yn gwybod mai yn Ionawr 1917 enlistiodd Ellis â'r fyddin. Aeth ddiwedd y mis i Litherland i hyfforddi i fod yn filwr.



cbac wjec

# Taith Ellis Humphrey Evans yn y nofel

"Nid stori ydy hi.
Dwi'n deud y gwir."

cbac wjec



**Ffermio yn yr Ysgwrn**
* Gweithio gyda'i dad a'i frodyr yn trin y tir, bugeilio
* Barddoni



**O flaen sawl tribiwnlys**
* Yn disgwyl clywed yn ôl o dribiwnlys ym Mhenrhyndeudraeth (Penrhyn)
* Roedd y dynion hyn yn penderfynu a oedd yn rhaid i berson ymuno â'r fyddin




**Enlistio ym Mlaenau Ffestiniog (Stiniog)**
* Pwysau ar Ellis i ymuno â'r fyddin - pwysau gan y gymdeithas a phropaganda
* Nid oedd ei deulu eisiau iddo fynd ond byddai'n rhaid i un ohonynt fynd



**I Wrecsam i gael prawf meddygol**
* Pasio'r prawf
* Yn ôl gartref am ychydig eto



**I Litherland, ger Lerpwl**
* Gadael ar 29 Ionawr
* Treulio tri mis yn y gwersyll yn hyfforddi i fod yn filwr



**Adref i'r Ysgwrn**
* Helpu gyda'r aredig (cynhyrchu bwyd yn bwysig)
* Ceisio gorffen yr awdl



**I Southampton ac ymlaen i Rouen yn Ffrainc**
* Hwylio i Ffrainc gyda'r Ffiwsilwyr Cymreig
* Yn mynd bron yn syth ar ôl dod yn ôl o'r Ysgwrn - tri mis yn unig o hyfforddiant!



**O Rouen i Ypres yng Ngwlad Belg**
* Gorffen yr awdl a'i hanfon
* Ysgrifennu llythyron - rhai yn disgrifio harddwch e.e. blodau mewn hen *shell*



**Marw yn Passchaenadele**
* Cael ei glwyfo a marw ar ddiwrnod olaf Brwydr Trydydd Cyrch Ypres, 31 Gorffennaf
* Wedi ysgrifennu at Jini ychydig cyn hynny



**Ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Birkinhead 1917**
* Ei freuddwyd wedi dod yn wir
* Y gadair yn dod yn ôl i'r Ysgwrn

# FFEIL-O-FFEITHIAU

## Anni

Enw llawn: Ann Evans

Oed ar ddechrau'r nofel: 13 (bron yn 14)

Cartref: Yr Ysgwrn, Cwm Prysor ger Trawsfynydd

Teulu: Byw gyda'i rhieni; tri brawd hŷn (Ellis, Bob, Ifan); chwaer hŷn (Maggie); chwaer iau (Enid); dwy chwaer arall (Meri a Cati) sydd wedi mynd i Lerpwl i weithio

Ffrindiau: Lora Margaret (blwyddyn yn hŷn nag Anni); perthynas agos hefyd gydag Enid ac Ellis; yn dod ychydig yn agosach at Wil Ffurat erbyn y diwedd

Gwaith: Disgybl ysgol ond yn gorfod gweithio llawer gartref e.e. cario dŵr, carthu o dan yr ieir, edrych ar ôl ei chwaer

Amser hamdden: Mynd i'r Band of Hope; mynd am dro; gwau (e.e. sanau) a gwnïo (sampler)

Pryd a gwedd: Dim tystiolaeth yn y nofel o sut mae'n edrych ond mae'n hoffi pethau del fel rhuban coch yn ei gwallt

### 8 PETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- pontio rhwng y llinynnau stori gwahanol - yn gweld a chlywed popeth sy'n digwydd
- drwyddi hi, clywn am effaith y rhyfel ar gymeriadau eraill ac ar y gymdeithas
- caredig wrth Lora e.e. rhoi carreg wen iddi; rhoi hances les iddi; mynd â llythyr i Hywel; gwrando; morwyn briodas iddi
- siarad ag Ellis am ei hofnau; cael sgwrs am y sêr gydag e (teitl y nofel)
- dwyn y bag melfed er mwyn ei roi i Enid (a'i roi yn ôl wedyn gan ei bod yn teimlo'n euog)
- newid a dod yn fwy aeddfed e.e. yn y ffordd mae'n edrych ar ôl ei mam a'i chwaer
- deall cymeriadau eraill yn dda e.e. Gwen Jones; Wil Ffurat
- gweddïo'n dawel yn aml – yn poeni

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Ofergoelus**
- **Caredig a thyner**
- **Ufudd**
- **Gofidus/ Yn poeni am bethau**
- **Dychymyg byw**
- **Deallus a chraff**



cbac wjec

# FFEIL-O-FFEITHIAU

## Lora

Enw llawn: Lora Margaret Edwards

Oed ar ddechrau'r nofel: 14 (bron yn 15)

Cartref: Tŷ'n Rhos, Trawsfynydd

Teulu: Byw gyda'i mam (Citi) a'i thad (Ifor) sydd newydd ddod adref o'r brwydro yn Ffrainc; brawd bach ag anabledd dysgu (Jim); brodyr a chwiorydd eraill gan gynnwys brawd o'r enw Ned

Ffrindiau: Anni sy'n ffrind ysgol a blwyddyn yn iau; Hywel sy'n dod yn gariad iddi

Gwaith: Yn gadael yr ysgol ar ôl i'w thad ddod adref er mwyn helpu ei mam ac edrych ar ôl Jim a'i thad

Amser hamdden: Mynd i'r Band of Hope; mynd am dro

Pryd a gwedd: Tenau; trwyn yn mynd yn goch iawn pan fydd hi'n crio

### 6 PHETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- disgyn mewn cariad gyda Hywel (a'i briodi erbyn y diwedd)
- poeni am ei thad sydd wedi cael anaf difrifol i'w wyneb
- gwrthdaro gyda'i mam a pharhau i 'weld' Hywel er nad oedd ei mam yn fodlon
- dod o hyd i'r llythyr roedd ei thad wedi ysgrifennu am ei gyfnod ym Mametz
- pellhau ychydig oddi wrth Anni gan fod ei pherthynas gyda Hywel yn datblygu
- delio gydag anafiadau ei thad yn ddewr

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Penderfynol**
- **Cryf**
- **Unig**
- **Aeddfed**
- **Caredig**
- **Dewr**



cbac wjec

# FFEIL-O-FFEITHIAU

## Ellis

Enw llawn: Ellis Humphrey Evans

Oed ar ddechrau'r nofel: 27

Cartref: Yr Ysgwrn, Cwm Prysor ger Trawsfynydd

Teulu: Byw gyda'i rieni; dau frawd iau (Bob, Ifan);
tair chwaer yn yr Ysgwrn (Maggie, Anni, Enid); dwy chwaer arall (Meri a Cati) sydd wedi mynd i Lerpwl i weithio

Ffrindiau: Yn boblogaidd ac yn ffrind i bawb; ffrindiau gydag Ifor, tad Lora; hefyd yn cwrdd â ffrindiau wrth yr odyn i drafod barddoniaeth

Cariad: Jini Owen

Gwaith: Gweithio yn yr Ysgwrn; ffermio

Amser hamdden: Barddoni; mynd am dro; mynd i'r dafarn weithiau

Pryd a gwedd: Dim tystiolaeth yn y nofel o sut mae'n edrych

### 8 PETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- tynnu coes a chael hwyl e.e. tynnu stumiau, gwneud cartŵn o ddyn bach, esgus cael ei gadeirio gyda Bob
- siarad llawer gydag Anni a rhoi cyngor iddi e.e. i beidio newid; edrych ar y sêr (teitl y nofel)
- ei berthynas gyda Jini Owen yn datblygu – awgrym o briodas
- mwynhau barddoni; ysgrifennu 'Gwenfron a mi'; yn gweithio ar ei awdl, 'Yr Arwr'
- penderfynu enlistio yn hytrach nag aros i weld beth fyddai'r tribiwnlys yn ei ddweud
- dilyn y llwybr canlynol: Stiniog (enlistio) → Wrecsam (prawf meddygol) → Litherland (hyfforddi) → Adref i'r Ysgwrn (aredig) → Ffrainc → Ypres (Gwlad Belg) → Marw a'i gladdu ger Ypres
- ysgrifennu llythyron adref – rhoi syniad o beth oedd bywyd milwr; danfon penillion i Jini
- ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Birkinhead ar ôl iddo farw

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Hwyliog**
- **Creadigol a rhamantaidd**
- **Caredig ac annwyl**
- **Anhrefnus a breuddwydiol**
- **Aeddfed a doeth**
- **Difrifol / Yn poeni am bethau**



cbac wjec

## Gwen Jones

Teulu: Mae ganddi fab o'r enw Ben sy'n ymladd yn Ffrainc; dydyn ni ddim yn gwybod a oes ganddi ŵr

Ffrindiau: Dim ffrindiau arbennig ond mae'n mynd i gael te gyda mam Anni yn yr Ysgwrn

Pryd a gwedd: Yn gwisgo dillad du, a ffwr a wyneb llwynog arno (Anni'n ofni'r llygaid)

### 5 PETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- beirniadu Ellis a bechgyn eraill am beidio â mynd i'r rhyfel
- meddwl bod Ifor, tad Lora, yn lwcus yn cael dod adref (er iddo gael anaf gwael)
- gweld Anni'n rhoi'r pwrs melfed yn ôl ar y cownter yn siop Mrs Lloyd
- gweld Lora'n rhoi llythyr cyfrinachol i Hywel yn y clawdd
- cario clecs e.e. am y pwrs, am y llythyr

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Cas a sbeitlyd**
- **Chwerw**
- **Busneslyd**
- **Meddwl ei hun yn bwysig**
- **Cario clecs a dauwynebog**

## Dodo Citi

Enw: Citi Humphreys

Teulu: Gŵr o'r enw Ifor oedd wedi ei anafu ym Mametz; sawl plentyn ganddi gan gynnwys Lora, Jim a Ned; mae ei mam (Nain) yn helpu e.e. edrych ar ôl Jim

Ffrindiau: Mam Anni yn yr Ysgwrn (yn danfon bwyd ac eli draw yn aml er mwyn ei helpu); mae plant yr Ysgwrn yn ei galw'n Dodo (Anti) Citi er nad ydynt yn perthyn

### 4 PETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- edrych ar ôl Gruff a cheisio ymdopi gyda'r straen
- newid – ar y dechrau mae'n llawn gofid ac yn ddiamynedd ond mae'n dod yn fwy positif e.e. chwerthin ar ôl i Jim fynd at ei dad
- gwrthod gadael i Lora weld Hywel (ond yn newid ei meddwl erbyn y diwedd)
- bob amser yn gwahodd Anni i mewn am fwyd

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Caredig**
- **Diamynedd (yn y rhan gyntaf)**
- **Call**



cbac wjec

## Mam Anni

Enw: Meri Evans

Cartref: Yr Ysgwrn, Cwm Prysor ger Trawsfynydd

Teulu: Gŵr (Tada) sy'n ffermio; yn y nofel mae ganddi wyth o blant – Ellis, Meri, Cati, Maggie, Bob, Ifan, Anni, Enid

### 2 BETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- helpu cymdogion e.e. gwneud eli ar gyfer clwyfau Gruff
- edrych ar ôl y teulu a phoeni amdanynt, yn enwedig Ellis yn mynd i'r rhyfel

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Gofidus**
- **Caredig**
- **Doeth**



cbac wjec

# FFEIL-O-FFEITHIAU

## Hywel

Enw llawn: Hywel Humphrey Jones

Oed ar ddechrau'r nofel: 15 (bron yn 16)

Cartref: Harlech; ond wedi mynd i fyw gyda'i fodryb yn Nhrawsfynydd

Teulu: Mam (y ddynes ddieithr yn y nofel); tad (Gruff Wmffra) sydd 'ar goll' yn ystod y nofel; Modryb Jên yn Nhrawsfynydd; brawd bach

Ffrindiau: Ifan (brawd Anni); dod yn gariad i Lora; Wil Ffurat (yn rhyw fath o ffrind)

Gwaith: Yn yr ysgol ond yn mynd i weithio fel gwas ar fferm yn Rhiwgoch gan nad oedd ei fam yn gallu fforddio ei gadw yn yr ysgol

Pryd a gwedd: "Pryd tywyll", yn dal

### 3 PHETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- poeni am ei dad – ddim yn gwybod ble mae e ar ôl y brwydro ym Mametz, y Somme
- symud i Drawsfynydd
- caru gyda Lora ac yna'i phriodi

### NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Gofidus**
- **Caredig**



cbac wjec

# FFEIL-O-FFEITHIAU

## Wil Ffurat

Enw iawn: Wil (llysenw yw Wil Ffurat am ei fod o bosib yn edrych fel ffurat/ fferet)

Oed ar ddechrau'r nofel: 14

Cartref: Trawsfynydd

Ffrindiau: Dim sôn am ffrindiau arbennig

Gwaith: Yn ddisgybl yn yr ysgol ond erbyn y diwedd mae'n gweithio gyda 'cariwr' yn cario nwyddau a mynd â negeseuon o un lle i'r llall

Pryd a gwedd: Ar y dechrau: 'Mae o fel llygoden fawr a'i drwyn bach main yn gallu ogleuo unrhyw friwsionyn o stori neu helbul.' Erbyn y diwedd: 'Edrychais arno ac roedd ei wyneb yn wahanol rywsut, yn fwy difrifol.'

3 PHETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- cario clecs  e.e. dweud wrth mam Lora bod Ned, ei brawd, wedi cael y gansen am fethu sillafu 'Gallipoli'
- newid ac aeddfedu – ar ddechrau'r nofel dydy e ddim yn dangos unrhyw gydymdeimlad gyda theuluoedd y milwyr (e.e. tad Lora) ond erbyn y diwedd, mae'n poeni mwy (e.e. am Ellis) - mae 'wedi colli'r onglau miniog, wedi meddalu'
- holi llawer o gwestiynau i Anni a Lora ond erbyn y diwedd roedd 'rhywbeth yn wahanol yn y ffordd roedd Wil yn holi heddiw'

NODWEDDION PERSONOLIAETH:

**Ar y dechrau:**
- **Slei**
- **Busneslyd**

**Erbyn y diwedd:**
- **Sensitif**



cbac wjec

# Tada (Tad Anni)

Enw: Ifan Evans

Cartref: Yr Ysgwrn, Cwm Prysor ger Trawsfynydd

Teulu: Ffermwr; yn y nofel mae ganddo wyth o blant – Ellis, Meri, Cati, Maggie, Bob, Ifan, Anni, Enid

Iechyd: Yn dioddef o grydcymalau (ond yn well pan ddaeth Ellis adre)
'Tydi Tada ddim eisiau gweld peiriannau yn yr Ysgwrn. 'Hen dacla peryg' mae o'n galw pob peiriant.' (ceir – ddim eisiau newid, ond Ifan yn wahanol.)

## 2 BETH PWYSIG Y MAE'N EU GWNEUD YN Y NOFEL:

- gweithio
- cefnogi Ellis wrth iddo farddoni
- heneiddio – fe sy'n derbyn y telegram am farwolaeth Ellis. 'Yno, o fy mlaen, gwyliais fy nhad yn troi yn hen, hen ŵr.'

## NODWEDDION PERSONOLIAETH:

- **Traddodiadol; ddim eisiau gweld newid**
- **Ddim yn dangos llawer o emosiwn**
- **Caredig**
- **Cefnogol i Ellis a'i farddoniaeth**
- **Pennaeth y teulu**

# Pwy sy'n perthyn

## Teulu'r Ysgwrn

**Ifan Evans = Mary**

**Ellis**
Ellis Humphrey Evans.
Hedd Wyn yw ei enw barddol a fe yw testun y nofel.

**Dafydd**
ond nid yw e yn y nofel.

**Mary**
yn nyrsio yn Lerpwl.

**Cati**
yn gweithio mewn ffatri yn Lerpwl.

**Maggie**
yn gweithio adref yn Yr Ysgwrn yn helpu pawb.

**Bob**
bron yn 18. Yn gweithio adref a byddai'n rhaid iddo fynd i'r rhyfel pe na fyddai Ellis yn mynd.

**Ifan**
yn 15 oed. Fe sydd agosaf o ran oed at Anni.

**Anni**
y stori yn cael ei hadrodd drwy ei llygaid hi. Mae'n agos iawn at ei brawd mawr, Ellis.

**Enid**
y cyw melyn olaf. Mae Anni'n edrych ar ei hôl.

## Teulu Ty'n Rhos

Dodo = 'modryb' ond nid modryb sy'n perthyn trwy waed. Mae Anni'n galw Citi yn Dodo Citi.

**Ifor Edwards = Citi (Dodo Citi)**

**Lora Margaret**
sy'n ffrind mawr i Anni. Dy-dyn ni ddim yn gwybod yn bendant ai hi yw'r hynaf.

?

**Ned**
sy'n cael y gansen yn yr ysgol am fethu â sillafu 'Gallipoli'.

?

?

**Jim**
sy'n 5 oed ac na fydd 'byth yr un fath â hogiau eraill'.

## Teulu Hywel o Harlech

**Gruff Wmffra = Mam Hywel** (y ddynes ddieithr)
(Gruffydd Humphrey Jones)

**Hywel Humphrey Jones**

# Sut berson yw Ellis?



- Hwyliog
- Caredig ac annwyl
- Aeddfed a doeth
- Creadigol a rhamantaidd
- Anhrefnus a breuddwydiol
- Difrifol / Yn poeni am bethau

## Hwyliog

Yn tynnu coes a mwynhau chwarae gyda'i frodyr a'i chwiorydd e.e. esgus cadeirio, rhedeg ar ôl ei gilydd, gwneud wynebau. Fe yw'r un sy'n dod â hwyl a sbri i'r cartref.

'Lle felly ydi'r Ysgwrn, os nad oes yna hwyliau ar Ellis, yna does dim hwyliau ar neb arall chwaith.'

Yn un o'i lythyron, roedd cartŵn i Anni ac Enid– 'llun blêr o filwr bach fel dyn coesau matsis, yn gwisgo menig a sanau mawr gwlân a diferion o chwys yn tasgu oddi arno.'

'Mae popeth gymaint gwell pan mae o adra.'

Mae ganddo ffrindiau ac mae'n mynd allan gyda nhw i'r dafarn weithiau.

## Caredig ac annwyl

Mae e'n gwneud i bobl deimlo'n well. 'Ellis ydi'r un i dawelu Mam bob tro.'

Mae e'n garedig iawn i Citi ac Ifor.

Doedd Ellis ddim eisiau lladd y ceiliog ar gyfer cinio Nadolig (ond mae YN gwneud hynny yn y diwedd).

## Aeddfed a doeth

Mae ganddo berthynas dda gydag Anni ac mae'n siarad llawer gyda hi. Mae'n rhoi ei amser iddi ac mae'n ceisio bod yn bositif: "Paid â gadael i'r rhyfel yma dorri dy ysbryd di... rwyt ti'n ifanc a dy fywyd o dy flaen di. Paid â gadael i'r hen dywyllwch yma dy fygu di – addo hynny i mi Anni."

## Creadigol a rhamantaidd

Mae'n mwynhau cyfansoddi barddoniaeth ar gyfer pobl.

Mae'n benderfynol o orffen yr awdl ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Ei freuddwyd yw ennill y gadair. Ond mae'n digalonni weithiau ac yn 'bygwth rhoi'r gorau iddi o hyd'.

Mae'n rhamantus gyda Jini – yn ysgrifennu penillion iddi ac yn rhoi blodau (briallu) iddi. Mae e mewn cariad.

Mae'n gweld prydferthwch mewn pethau hyll e.e. yn dweud mewn llythyr ei fod 'wedi gweld hen ddarn o *shell* wedi'i droi'n botyn i ddal blodau yng ngardd rhywun'.



cbac
wjec

# Sut berson yw Ellis?

## Anhrefnus a breuddwydiol

Mae ei farddoniaeth ar ddarnau o bapur ar hyd y lle, ac mae Maggie'n gorfod ei helpu i gadw trefn arnynt.

'Ei feddwl o sydd yn bell, meddai Mam... '

Ar y fferm dydy e ddim yn cofio cau gatiau ar ei ôl ac mae'n aml yn codi'n hwyr ar ôl bod yn barddoni drwy'r nos – 'Bob ac Ifan sy'n gorfod codi i fynd i borthi'r anifeiliaid, tra bydd Ellis yn ei wely.'

## Difrifol / Yn poeni am bethau

Roedd e'n poeni am fynd i'r fyddin a chyn mynd roedd e'n dawelach. Mae Anni'n dweud bod yr 'hen Ellis hwyliog' wedi mynd. Roedd e'n ceisio gwenu *'ond doedd y wên ddim yn cyrraedd ei lygaid'.*

Rhyfedd, fydd Ellis byth yn tynnu'n groes fel arfer, ond roedd o fel 'tai o wedi cynhyrfu efo'r papurau yna. Mae'n rhaid eu bod nhw'n bwysig.'

Mae'n enlistio yn y fyddin am ei fod e'n gwybod bod yn rhaid iddo fe neu Bob fynd.

# Sut berson yw Anni?

Mae Mrs Lloyd yn dweud wrth Anni bod ganddi ddewis: 'bod yn ffeind neu'n flin, yn ffyddlon neu'n anffyddlon. Dewis ydi hynny.'

Mae Anni'n berson da ac yn y nofel mae'n dewis bod yn 'ffeind' ac yn 'ffyddlon'.

## Caredig a thyner



Mae hi'n cysuro pobl sy'n teimlo'n isel ac mae'n deall sut mae eu cael i deimlo'n well. Dydy hi ddim yn ofni cyffwrdd â nhw.

**Enghraifft:**

Un peth mae'n gwneud yn aml yw chwarae gyda'u gwallt nes eu bod yn tawelu. Mae'n gwneud hyn i gael Enid i gysgu ac i gael Lora i stopio crio. Mae hefyd yn gwneud hyn i'w mam.

## Ofergoelus

Mae'n credu ar y dechrau y bydd anlwc yn dod iddi os na fydd hi'n gwneud rhai defodau arbennig e.e. codi cerrig gwyn.

Mae hefyd yn credu os bydd hi'n gwneud rhywbeth gwael y bydd hi'n cael ei chosbi rywsut. Mae hi'n gweld cysylltiad rhwng dwyn y bag melfed a gweld Lora a Hywel gyda'i gilydd y tro cyntaf. Mae'n poeni hefyd y bydd rhywbeth gwael yn digwydd i Ellis o'i hachos hi.

Erbyn y diwedd mae'n aeddfedu ac yn sylweddoli nad yw hi'n gallu rheoli popeth. Ond mae wedi dysgu hefyd bod dewis ganddi – 'bod yn ffeind neu'n flin, yn ffyddlon neu'n anffyddlon'.

## Ufudd

Dydy hi ddim yn mwynhau llawer o'r gwaith mae'n gorfod gwneud o gwmpas y fferm a'r tŷ ond nid yw'n gwrthod gwneud unrhyw beth. Mae'n gweithio'n ufudd.

Dydy hi ddim yn gyfforddus gyda mynd yn erbyn barn pobl hŷn e.e. mynd â llythyr i Hywel.

Ar y dechrau pan ofynnodd ei mam iddi ble roedd hi wedi bod, roedd hi'n credu ei bod wedi ateb ei mam yn ôl wrth ddweud iddi fod gyda Lora. Efallai nad ydyn ni heddiw yn gweld dim yn bod ar hyn!

## Dychymyg byw

Mae'n gweld y pwythau ar y bag melfed fel 'llygaid' ac mae'n credu bod wyneb y llwynog ar ffwr Gwen Jones 'yn gwneud hwyl am fy mhen, a'i cheg ar hanner tro sbeitlyd'.

Mae'n gweld mam Hywel fel 'aderyn bach ofnus wedi'i gau mewn ystafell ac yn methu dod allan'.

# Sut berson yw Anni?

## Deallus a chraff

Mae hi'n sylwi'n ofalus ar bobl ac ar yr hyn sy'n digwydd o'i chwmpas e.e. mae'n gwybod nad yw ei mam yn hoffi Gwen Jones er nad yw'n dweud hynny; mae'n synhwyro'r newid yn Wil; mae'n sylwi mai dim ond cwestiynau mae'n eu gofyn i Lora ers iddi adael yr ysgol ond cyn hynny roedd y sgwrs yn llifo; mae'n deall mai propaganda sy'n y papurau.

Mae'n dweud pethau craff ac aeddfed fel 'Lleidr geiriau ydi Gwen Jones, mae hi'n dwyn eich geiriau cyn i chi fod wedi'u gollwng o'ch ceg.'

Mae'n gweld bod y gadair yn fwy na chadair Ellis. 'Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.'

## Gofidus/ Yn poeni am bethau

Y prif beth mae'n poeni amdano wrth gwrs yw Ellis, y brawd mawr mae'n meddwl y byd ohono. Yn aml, nid yw'n gallu cysgu ac yna mae'n codi. Mae Ellis yn gwybod ei bod yn 'meddwl' llawer (yn debyg iddo fe). 'Mae meddwl yn beth da; dim digon o feddwl ydi'r drwg yn y byd 'ma,' medd Ellis. Gydag Anni mae e'n cael y sgwrs am y sêr am ei fod yn gwybod mai hi yw'r aelod o'r teulu a fydd yn deall a gwerthfawrogi hyn orau.

Mae'n drist iawn ar ôl clywed bod Ellis wedi marw ond mae'n falch ohono hefyd am ei fod wedi ennill y gadair.

Erbyn y diwedd mae'n edrych i'r dyfodol wrth fynd i briodas Lora.

Mae'n aml yn teimlo'n euog e.e. ar y dechrau am nad oedd wedi amddiffyn Lora'n iawn. Hefyd mae'n teimlo'n euog am ei bod yn teimlo'n hapus ar ôl cyfarfod â Hywel tra bod tad Lora yn sâl.

# Stori Ifor

Yn ei lythyr at Citi, ei wraig, mae Ifor yn dweud beth ddigwyddodd iddo ar 10 Gorffennaf 1916 yng Nghoedwig Mametz.

## Pam ysgrifennodd e'r llythyr?

Doedd e ddim yn gallu siarad oherwydd bod ei geg wedi ei anafu. Hefyd roedd y profiad yn brifo gormod ond roedd e eisiau i Citi wybod popeth ddigwyddodd iddo. Ysgrifennodd y llythyr ar ôl dod adref ac felly doedd neb wedi gallu sensro'r llythyr hwn.

## Ble oedden nhw a pham?

- mewn lle o'r enw Mametz yn ardal y Somme
- wedi bod yn paratoi ar gyfer ymosodiad ers dyddiau ac wedi bod yn ceisio gwthio llinell yr Almaenwyr yn ôl
- cael ordors i gymryd y goedwig (ond yr Almaenwyr i mewn yno)

## Pa broblemau oedd wedi bod yn eu hwynebu?

- nwy
- gynnau mawr yn lladd
- wedi blino
- socian yn y ffosydd
- dillad ac esgidiau gwlyb drwy'r amser
- chwain (*fleas*) a llau (*lice*) yn brathu, yn enwedig eu clustiau
- llygod mawr yn cnoi

## Pwy oedd gydag Ifor?

- Iori Park Place
- Ted bach Park Place, brawd ieuengaf Iori
- Gruff Wmffra

## Beth ydyn ni'n ei wybod amdanyn nhw?

- Iori
  - wedi gorfod mynd dros y weiren gyda'r criw cyntaf er mwyn ymosod ar yr Almaenwyr
  - gwybod na fyddai'n dod yn ôl
  - wedi gofyn i Gruff ac Ifor edrych ar ôl Ted
  - cael ei daro yn ei gefn gan *shell*. Yn marw
- Ted bach
  - 17 oed yn unig
  - wedi enlistio er mwyn cael antur
  - cyn y frwydr, yn crio ac yn gwrthod mynd o'r ffos
  - Gruff ac Ifor yn tynnu Ted bach dros y weiren (neu byddai'n cael ei saethu fel bradwr)
  - Ted sy'n achub Ifor a'i gario'n ôl i'r ffos

- Gruff
  - yn gobeithio y byddai ei fab yn mynd ymlaen â'i addysg
  - cadw pawb mewn hwyliau da gyda'i straeon am bysgota glan môr

## Beth ddigwyddodd ar 10 Gorffennaf 1916?

- Ifor a Gruff wedi gorffen smocio'u baco i gyd ac yn ysgrifennu llythyron
- Y wawr yn torri - gorfod mynd 'dros y top' gyda'u gynnau a cherdded (nid rhedeg) at y gelyn
- Ted bach yn crio ac yn gwrthod mynd – Ifor a Gruff yn ei gario dros y top
- Mynd trwy gae mawr (heb gysgod) i gyfeiriad y goedwig ond yn anodd oherwydd:
  - Almaenwyr yn saethu atynt
  - y tir wedi ei dorri'n rhychau am fod Prydain wedi bod yn bombardio'r cae ers dyddiau
- Sŵn ofnadwy – gynnau, sgrechfeydd, milwyr mewn poen, swyddogion yn gweiddi, gwichian y *shells* yn disgyn, ceffylau'n gweryru ac yn cael eu lladd
- Ted yn rhedeg ymlaen gyda'i reiffl
- Darnau o fetel (*shells*) yn disgyn ar Gruff ac Ifor
- Gruff wedi ei daro yn ei ochr ac yn disgyn. Yn colli gwaed ac yn ymddangos fel ei fod yn marw
- Ifor yn llusgo Gruff i dwll yn y tir – addo y byddai yn ei gael ef adref
- Ted yn cyrraedd y twll. Ted ac Ifor yn cario Gruff allan er mwyn mynd ag e'n ôl i'r ffos i gael sylw meddygol ond yna ...
- Clec a ffrwydrad arall. Ifor wedi ei daro yn ei wyneb – sylweddoli nad oedd ei ên yno.
- Ifor yn teimlo'n euog – meddwl ei fod wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn ceisio symud Gruff
- Ifor yn anymwybodol – popeth yn mynd yn ddu
- Ted yn cario Ifor yn ôl i'r ffos ond Ifor ddim yn cofio hyn
- Ifor ddim yn gwybod beth ddigwyddodd i Gruff

# Newid – cymeriadau a chymdeithas

## Cymeriadau'n newid

'Roedd hwn yn ha' rhyfedd. Doedd dim byd fel roedden nhw'n arfer bod rywsut.'

Dyna sut roedd Anni'n gweld pethau. Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi gadael ei ôl ar y cymeriadau a'r gymdeithas ac felly un o themâu mawr y nofel yw Newid. Mae'r nofel yn ymestyn dros gyfnod o naw mis a gwelwn rai o'r cymeriadau'n newid a datblygu yn ystod yr amser hwnnw yn enwedig wrth i effeithiau'r rhyfel eu taro.

Mae rhyw dristwch yn dod dros bob un e.e. Tada ar ôl clywed bod Ellis wedi ei ladd. Mae Anni'n dweud, 'Yno, o fy mlaen, gwyliais fy nhad yn troi yn hen, hen ŵr.'

### Pwy sy'n newid?

## Anni

Ar ddechrau'r nofel mae'n ofergoelus ac yn poeni am bethau bach. Mae'n codi carreg wen am ei bod yn credu y bydd rhywbeth ofnadwy'n digwydd petai'n ei gadael ar y llawr. Mae ganddi ddefodau bach y mae'n rhaid iddi gadw atyn nhw. Mae'n debyg bod ymddygiad fel hyn yn eithaf cyffredin mewn plant a phobl ifanc – rhyw ffurf ar OCD. Mae'n siŵr eich bod wedi gweld rhaglenni dogfen ar y teledu am bobl sy'n teimlo bod yn rhaid iddynt glecian bysedd neu olchi dwylo neu gyffwrdd â wal neu gyfrif i fyny i ddeg mewn sefyllfaoedd penodol. Efallai eich bod chi eich hun fel hyn neu'n adnabod rhywun fel hyn. Maen nhw'n credu ac yn ofni, fel Anni ar y dechrau, y bydd anlwc yn eu taro nhw neu eraill os na wnân nhw'r defodau hyn. Mae ganddi bethau eraill mae hi'n meddwl sy'n dod â lwc iddi hefyd e.e. hances les a gafodd gan Ellis. Ac mae'n meddwl bod cysylltiad rhwng dwyn y bag bach melfed a pherthynas Lora a Hywel yn datblygu.

Wrth i'r nofel fynd yn ei blaen, mae Anni'n dechrau gollwng gafael ar yr ofergoeliaeth hyn. Mae'n rhoi carreg a hances i Lora er enghraifft am ei bod eisiau i'w ffrind deimlo'n well. Erbyn diwedd y nofel, mae Anni'n sylweddoli nad ydy hi'n gallu rheoli anlwc ac nad oes cysylltiad rhwng pethau fel codi carreg a bywyd o'i chwmpas. Ar y ffordd i briodas Lora ar y diwedd, mae'n gweld carreg ac yn ei chodi. Ond yna mae'n gweld ei mam drwy'r ffenestr yn gwenu arni ac mae'n gollwng y garreg a cherdded ymlaen. Mae hi wedi aeddfedu ac wedi troi cefn ar y defodau plentynnaidd.

## Wil Ffurat

Ar y dechrau mae Wil yn amhoblogaidd. Nid yw Lora nac Anni yn ei hoffi. Mae'n gofyn cwestiynau er mwyn bod yn lletchwith ac yn gwneud y merched yn anghyfforddus e.e. am dad Lora ac am Ellis yn nes ymlaen. Mae'n galw enwau ar Lora e.e. 'Lora ceg tin iâr' ac nid yw'n sensitif i deimladau pobl eraill. Mae'n slei ac mae ei lysenw, Wil Ffurat yn dangos hynny. ( Yn y de – fferet). Mae yr un oed ag Anni (tua 14) ond mae'n llawer mwy anaeddfed. Pan ddaw e a Hywel i gyfarfod â'r merched am y tro cyntaf, mae'n mwynhau pryfocio'r merched trwy beidio â dweud pwy yw e yn syth ac mae'n dangos ei hun wrth ddweud wrth Hywel pwy yw'r merched.

Erbyn diwedd y nofel, mae naw mis wedi mynd heibio ac mae wedi aeddfedu. Mae e hefyd wedi cael ei effeithio gan yr holl newyddion gwael o'r rhyfel sy'n cyrraedd Trawsfynydd. Mae'r ffordd mae'n siarad gydag Anni yn llawer mwy sensitif. Mae e wir yn poeni amdani hi ac am Ellis. Mae'n dweud ei fod e'n credu bod yr ymladd yn bell o Rouen (lle roedd Ellis ar y dechrau) er mwyn i Anni deimlo'n well, er nad oedd e'n siŵr o'i ffeithiau. Mae Anni'n dechrau mwynhau ei gwmni ac mae awgrym bach, bach yno bod eu perthynas yn mynd i ddatblygu yn y dyfodol. Roedd Wil bellach 'wedi colli'r onglau miniog, wedi meddalu'.

# Newid – cymeriadau a chymdeithas

## Dodo Citi

Mae Anni'n credu mai Dodo Citi yw un o'r bobl mwyaf amyneddgar ac annwyl mae hi'n ei adnabod ('Doeddwn i'n adnabod neb efo amynedd fel Dodo Citi. Fyddai hi byth yn dwrdio, byth yn colli ei thymer nac yn codi ei llais'). Ond mae amgylchiadau yn ei newid, yn enwedig y straen o gael gŵr sydd wedi ei anafu'n ofnadwy yn y rhyfel yn byw yn y tŷ. Mae hi'n ddiamynedd gyda Jim (sy'n crio pan fydd yn gweld ei dad am nad yw'n ei adnabod bellach) ac mae ar bigau drwy'r amser. Mae'n llym gyda Lora ac yn dweud wrthi i beidio â gweld Hywel eto – mae hi'n dweud wrth Lora na fydd ei thad yn gwella os bydd hi'n parhau i fynd gyda Hywel. Nid yw'n dangos cydymdeimlad.

Ond erbyn diwedd y nofel, mae ychydig o'r hen Dodo Citi'n dychwelyd. Mae hi'n cael gollyngdod ar ôl i Ifor ddweud enw Gruff yn glir a Jim yn rhedeg ato. Mae'n chwerthin a chwerthin – arwydd o'r holl straen yn dod allan.

**A oes newid i'w weld yn rhai o'r cymeriadau eraill?**

| | |
|---|---|
| **Anni** | ofergoelus → mwy realistig / aeddfed |
| **Wil** | cecrus → mwy sensitif |
| **Dodo Citi** | amyneddgar → diamynedd → hapus |

# Newid – cymeriadau a chymdeithas

## Ellis

## Mam Anni

## Gwen Jones

## Cymdeithas yn newid

Y newid mwyaf yw bod llai o ddynion ifanc yn y gymdeithas wrth i'r rhyfel fynd yn ei flaen ac mae mwy a mwy o'r bobl yn gorfod delio gydag anafiadau a cholled. Roedd llawer o'r newidiadau eraill yn digwydd ymhell o Drawsfynydd mewn llefydd fel Lerpwl ac mae Maggie'n sôn am rai o'r pethau 'newydd' a welodd pan fu'n aros yno.



### Rôl merched

Gan fod cymaint o ddynion wedi gadael, roedd y gwragedd a'r merched oedd ar ôl yn cymryd mwy o gyfrifoldeb. Roedd llawer o deuluoedd lle nad oedd dyn ar yr aelwyd ac roedd rhai merched e.e. chwiorydd Anni sef Mary a Cati, wedi symud i'r dinasoedd i weithio mewn ffatrïoedd.

### Ffasiwn

Mae ffasiwn a'r ffordd mae merched yn ymddwyn yn newid. Daw Maggie yn ôl o Lerpwl gyda straeon am y merched mae'n eu gweld yn y ddinas. Mae teulu'r Ysgwrn yn cael sioc o glywed bod rhai merched yno'n gwisgo dillad 'byr' sy'n dangos eu fferau/ pigyrnau a bod rhai merched yn gwisgo ffrogiau coch. Mae hyn i gyd yn amharchus iawn ym marn mam Anni ac Ellis. Mae Maggie'n dod â cherdyn post gyda llun merch mewn ffrog wen hardd yn anrheg i Enid. Yn wir, mae diddordeb mawr gan Anni ac Enid mewn ffasiwn. Ond mewn gwirionedd, nid yw'r newidiadau hyn wedi cyrraedd Trawsfynydd ei hun.



cbac wjec

# Newid – cymeriadau a chymdeithas


## Ceir a pheiriannau

Ar ôl dod yn ôl o Lerpwl ar y trên, mae Maggie'n sôn am yr holl geir a welodd yno. Mae Ifan, y brawd 15 oed, wrth ei fodd yn clywed am rhain ond nid yw Tada eisiau gweld peiriannau'n cael eu defnyddio yn yr Ysgwrn. Maen nhw'n dal i ddefnyddio ceffylau i wneud pethau fel aredig a symud coed. 'Tydi Tada ddim eisiau gweld y peiriannau yma yn yr Ysgwrn. *'Hen dacla peryg'* mae o'n galw pob peiriant.'



## Addysg

Mae'r ffaith fod cymaint o ddynion ifanc wedi gadael y pentref yn golygu bod plant hynaf yn gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb ac nid yw mynd i'r ysgol yn bwysig mwyach. Maen nhw'n colli addysg.




## Crefydd

Mae crefydd a bywyd y capel yn bwysig iawn i bobl ardal Trawsfynydd. Mae lle pwysig i'r Beibl, y Band of Hope a gweddïo. Maen nhw'n stopio gweithio ar y Sul. Ond mae arwyddion bod pobl yn dechrau amau pethau e.e. mae Anni'n gofyn 'Os ydi Duw mor ffeind, pam ei fod o'n gadael i Ellis ni fynd i ryfel? A pham ei fod o wedi gorfodi Dewyrth Ifor i ddod adra heb hanner ei wyneb?' Ar y diwedd, ar ôl derbyn y newydd fod Ellis wedi ei ladd, mae'r Beibl yn dal yno ond nid yw ar agor. Nid ydynt wedi troi ato am gysur: 'Mae Tada wedi eistedd trwy'r dydd, y Beibl wrth ei ymyl ar y bwrdd, ond heb ei agor.' Mae rhyfel wedi newid y ffordd maen nhw'n meddwl.

# Effaith y rhyfel

| Effaith y rhyfel | Esboniad o'r effaith a gafodd y rhyfel | Enghraifft/ dyfyniad |
|---|---|---|
| **Dynion yn marw**<br>• y gwastraff<br>• yn cael eu claddu ymhell o'u cartrefi | *Yn y nofel, Ellis yw'r cymeriad sy'n cael ei ladd. Mae e'n cynrychioli'r holl fechgyn ifanc a fu farw yn y rhyfel. Gan ein bod yn dod i'w adnabod yn ystod y nofel ac yn gwybod sut berson oedd e, mae'r newyddion yn ein cyffwrdd ni'n bersonol.*<br>*Ar ddiwedd y nofel mae'r gadair yn dod yn ôl i'r Ysgwrn ond nid yw Ellis ei hun yn dod yn ôl.* | '...cadair Elsyn, y gadair ddu. Mi fydd y gadair yma tra byddwn ni yn yr Ysgwrn, dwi'n gwybod hynny. Mi fydd hi yma'n atgof o Ellis Humphrey Evans, ein Elsyn annwyl ni. Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.'<br><br>'Mae yna gymaint o fechgyn yr ardal wedi bod yn y front line ac yn dal yno yn rhywle o dan y pridd.' |
| **Dynion yn colli eu pwyll** | *Roeddent yn dod adref ond wedi cael eu heffeithio yn feddyliol gan y brwydro. Clywn am ddyn o'r Blaenau yn gweiddi ar y stryd yn y nos ac yn mynd yn ôl i guddio yn y gornel.* | "Wedi mynd yn dwlali mae o," meddai Lora yn blwmp ac yn blaen fel yna.<br><br>"Mae o'n codi yng nghanol nos ac yn mynd allan i'r stryd i weiddi... maen nhw'n cael eu deffro ganddo fo'n gweiddi, *'Over the top lads... over the top...'* o hyd. Wedyn, pan mae ei wraig o'n medru ei gael o yn ei ôl i'r tŷ, mae o'n mynd i guddio yn y gornel tu ôl i'r cloc efo'i ddwylo dros ei ben." (Lora) |
| **Dynion yn anafu eu hunain yn fwriadol** | *Roedd rhai yn gwneud hyn gan esgus eu bod wedi cael eu saethu gan yr Almaenwyr.* | 'Mi ddywedodd Gwen Jones mai wedi saethu ei hun yn ei droed roedd tad Huw Rhos er mwyn iddo ddod adra, ac mai cachgi oedd o go iawn...' |
| **Dynion yn cael eu clwyfo'n ofnadwy**<br>• chwalu'r wyneb<br>• colli breichiau a choesau | *Roedd Ifor, tad Lora, wedi ei glwyfo'n erchyll. Cafodd ei saethu yn ei wyneb ac o ganlyniad mae hanner gwaelod ei wyneb wedi diflannu. Mae'n methu â siarad yn iawn ac yn methu yfed a bwyta ond drwy welltyn. Nid yw ei fab ifanc, Jim, yn adnabod ei dad ac mae'n ei ofni. Mae ganddo fwgwd lledr ond mae'n anghyfforddus.* | 'Roedd yr wyneb a'r croen wedi crebachu, fel cwyr wedi bod yn rhy agos at fflam, ac wedi toddi'n siapiau dieithr, yn greithiau coch a phiws. A'r geg yn ogof o groen llac, diwefus.' (Anni) |

# Effaith y rhyfel

| Effaith y rhyfel | Esboniad o’r effaith a gafodd y rhyfel | Enghraifft/ dyfyniad |
|---|---|---|
| | | “Mae ei ên o wedi mynd, Tada. Maen nhw wedi gorfod ailadeiladu gên iddo fo... Pan mae o’n trio deud rhywbeth mae’r poer yn hel yn ffrom lle dylsai ei wefus isa fo fod, ond does yna ddim ceg, dim ond twll fel ogof.” (Ellis)<br><br>‘Mi wyddwn i hefyd am ddynion yn dod yn ôl yn fethedig, heb goesau, ac yn medru gwneud dim heblaw eistedd yn edrych ar y tân trwy’r dydd.’ (Anni) |
| **Dynion yn dioddef o iselder ac euogrwydd** | *Roedd Ifor yn teimlo’n euog am na wnaeth e fwy i achub Gruff yng Nghoedwig Mametz.* | ‘Roedd meddwl am hyn yn ‘ei yrru fo i’r pwll du yna sy’n dod drosto fo weithia...’ |
| **Dynion ‘ar goll’**<br>Teuluoedd ddim yn gwybod a oedd milwr yn fyw neu’n farw. | *Roedd Gruff, tad Hywel, mewn ysbyty yn Lloegr am chwe mis ond doedd neb yn gwybod pwy oedd e a ble oedd ei deulu.* | ‘Dydan ni ddim yn gwybod, does yna ddim cofnod ohono fo, dim telegram yn deud ei fod o wedi disgyn, dim nodyn ei fod o mewn rhyw ysbyty yn gorwedd yn rhywle, dim llythyr ganddo fo – dim byd... Y cwbwl wyddon ni ydi iddo fo groesi’r weiran allan o’r ffos y bore hwnnw efo’i gatrawd yng Nghoedwig Mametz... a dyna fo. Mae chwe mis ers hynny, a dim ond gair ffwrdd â hi yn deud ei fod o ar goll.’ |
| **Dynion yn enlistio yn y fyddin yn gynnar** yn y rhyfel a’u **teuluoedd yn chwerw** am nad oedd bechgyn eraill yn gwneud yr un peth. | *Roedd mab Gwen Jones, Ben, i ffwrdd yn ymladd ac roedd hi’n flin am fod Ellis yn dal adref yn ffermio ac yn ysgrifennu ei farddoniaeth. Yn wir mae’n gas am y peth.* | “Hy, mi fydd yn rhaid i Ellis yr Ysgwrn wneud fel y mae pawb arall wedi’i wneud ers blynyddoedd, yn bydd Mrs Lloyd? Ac mae yna betha pwysicach i’w gwneud na sgwennu rhigyma pan mae Lloyd George yn galw ar ein dynion i gwffio dros eu gwlad...” (Gwen Jones) |

# Effaith y rhyfel

| Effaith y rhyfel | Esboniad o'r effaith a gafodd y rhyfel | Enghraifft/ dyfyniad |
|---|---|---|
| **Dynion yn gwrthod ymladd** | *Mae Gruff yn ei lythyr yn sôn am ddynion yn derbyn 'pluen wen' am iddynt wrthod ymladd. Roedd pobl yn gyffredinol yn eu hystyried yn gachgwn. Gwrthwynebwyr cydwybodol yw'r enw ar y rhain.* | |
| **Pawb wedi eu heffeithio.** | *Roedd pawb yn perthyn neu'n adnabod rhywun oedd wedi mynd i ryfel. Roedd y bechgyn yn feibion, yn gariadon, yn wŷr, yn frodyr ac yn ffrindiau i'r rhai oedd ar ôl. Ni fyddai bywyd fyth yr un peth.* | 'Mae'r hen ryfal 'ma'n dwyn ein pobol ifanc ni bob yn un...' (Mrs Lloyd) |

# Ugain dyfyniad pwysig

cbac wjec

| DYFYNIAD | PWY A PHRYD? | BETH YDYN NI'N EI DDYSGU O'R DYFYNIAD? |
|---|---|---|
| *Nid oes gennym hawl ar y sêr,*<br>*Na'r lleuad hiraethus chwaith...*<br>tud. 5 | **Cwpled o farddoniaeth Hedd Wyn sy'n dod ar ddechrau'r nofel.** | Mae'n dweud bod rhai pethau nad ydym yn gallu eu rheoli na'u newid. Nid yw Dyn yn gallu newid byd natur. Mae hyn yn cysylltu gyda'r teitl *Diffodd y sêr*. Mae'r sêr yno drwy'r amser er na allwn eu gweld. |
| *Nid stori ydi hi. Dwi'n deud y gwir.*<br>tud. 6 | **Geiriau cyntaf y nofel. Lora sy'n eu dweud ac mae hi'n sôn am y telegram a dderbyniodd ei mam.** | Mae'r geiriau yn cyfeirio at y nofel i gyd. Mae hanes Hedd Wyn yn wir hefyd, ac mae'n fwy na 'stori'. Mae'r awdur wedi creu rhannau o'i dychymyg ond mae'r prif ffeithiau yn hanesyddol gywir. |
| *A dyna'r tro cyntaf i mi weld Mam yn crio o ddifri. Dyna'r adeg y gwnes i beidio â bod yn ferch fach, dwi'n meddwl.*<br>tud. 17 | **Mae mam Anni'n crio am fod Ellis wedi dweud ei fod yn mynd i enlistio (ymuno â'r fyddin). Mae Anni'n gorfod tyfu a wynebu realiti hefyd.** | Yn ystod y nofel, mae Anni'n newid llawer ac yn gorfod troi cefn ar fod yn blentyn. Mae rhyfel yn gorfodi pobl i ymddwyn yn aeddfetach. Mae'r rhyfel yn effeithio ar y gwragedd a'r dynion fel ei gilydd. |
| *Dwi ddim yn siŵr fedr neb ddysgu Ellis i fod yn filwr. Mae milwyr i fod i ladd dynion yn tydyn? Doedd Ellis ddim llawer o eisiau lladd y ceiliog at ginio Dolig, hyd yn oed.*<br>tud. 28 | **Anni sy'n meddwl hyn am Ellis ar ôl iddo enlistio a chlywed ei fod yn mynd i hyfforddi yn Litherland.** | Mae Ellis yn berson annwyl a thyner ac nid yw Anni'n gallu ei ddychmygu'n filwr ac yn lladd pobl. Doedd Ellis ddim hyd yn oed eisiau lladd y ceiliog ar gyfer y cinio Nadolig ond rydyn ni'n clywed wedyn ei fod e wedi gwneud hynny. Mae'n barod i wneud pethau pan fo rhaid felly. |
| *Mae siarad efo Duw ychydig 'run fath â siarad efo chwaer fach... Gei di'r farblen yna gen i os ei di i 'nôl dŵr yn fy lle i. Ffeirio – dyna sut mae siarad efo Duw yn gweithio.*<br>tud. 31 a 32 | **Mae Anni'n credu bod Duw wedi gwella ei pheswch ond bod yn rhaid iddi ddiolch i Dduw nawr er mwyn cael ffafr arall ganddo.** | Dyma yw gweddïo yn ôl Anni – gwneud bargen gyda Duw. Mae hi'n fodlon gwneud unrhyw beth er mwyn stopio Ellis rhag mynd i ffwrdd i'r rhyfel. |

# Ugain dyfyniad pwysig

| DYFYNIAD | PWY A PHRYD? | BETH YDYN NI'N EI DDYSGU O'R DYFYNIAD? |
|---|---|---|
| *"Paid â gadael i'r rhyfel yma dorri dy ysbryd di... rwyt ti'n ifanc a dy fywyd o dy flaen di. Paid â gadael i'r hen dywyllwch yma dy fygu di – addo hynny i mi, Anni."* tud. 41 | **Mae Ellis yn dweud hyn wrth Anni (ar ôl i Anni ddweud ei bod yn teimlo'n euog am ei bod hi'n teimlo'n hapus ar adeg pan oedd Lora'n drist).** | Mae Ellis yn aml yn llawn sbort a hwyl, ond yma mae e'n ddifrifol iawn. |
| *Pan mae o'n trio deud rhywbeth mae'r poer yn hel yn ffrom lle dylsai ei wefus isa fo fod, ond does yna ddim ceg, dim ond twll fel ogof, 'Nhad. Dydw i ddim yn gwybod a alla i i fod yn ddewr fel yna, wyddoch chi...* tud. 47 | **Ellis sy'n dweud hyn wrth ei dad ar ôl iddo fynd i weld Ifor.** | Mae yma ddisgrifiad arswydus o wyneb Ifor a'r anafiadau a gafodd. Rydym hefyd yn dysgu bod Ellis yn credu bod Ifor yn ddewr ac mae'n amau a fydd e'n gallu bod yn ddewr fel yna. Mae Ellis yn amlwg yn poeni am fynd i'r Rhyfel. |
| *"Edrych," meddai Ellis, "edrych ar y sêr... fedar neb na dim heblaw am y wawr ddiffodd y sêr, sti, a phan mae'r wawr yn dod, mae pob dim yn edrych yn well wedyn, yn tydi? Pan fydda i yn Litherland, ac os bydd yn rhaid i mi fynd i'r ffosydd, Anni, dwi am i ti edrych ar y sêr, ac mi wna inna 'run fath, yli. Dwi am i ti gofio beth ddywedais i wrthat ti heno. <u>Fedar neb ddiffodd y sêr. Neb.</u>"* tud. 49 | **Mae Ellis yn siarad ag Anni yn hwyr y nos. Mae hi wedi codi o'i gwely am ei bod yn poeni am Ellis. Mae e wedyn yn ceisio ei gwneud i deimlo'n well drwy sôn am y sêr.** | Mae e'n dweud y bydd y sêr yno drwy'r amser a bydd y ddau ohonyn nhw yn gallu eu gweld – Ellis yn Litherland ac Anni yn Nhrawsfynydd.<br><br>Yr unig beth sy'n gallu diffodd y sêr yw'r wawr (ac mae'r bore a'r haul yn codi yn rhywbeth braf). Nid yw pobl na phethau fel y Rhyfel yn gallu diffodd y sêr. Efallai na fydd Anni yn gallu eu gweld bob tro, ond bydd y sêr yn dal yno yn yr awyr. |

# Ugain dyfyniad pwysig

cbac wjec

| DYFYNIAD | PWY A PHRYD? | BETH YDYN NI'N EI DDYSGU O'R DYFYNIAD? |
|---|---|---|
| *Mi es inna'n ôl i 'ngwely wedyn, ac agor mymryn ar y llenni i mi gael cip ar y sêr, ond mae'n rhaid 'y mod i wedi cysgu, achos welais i'r un.* tud. 49 | **Mae Anni newydd fod yn siarad gydag Ellis am y sêr, ond mae hi'n dal i boeni amdano'n mynd i Litherland a'r rhyfel.** | Yma, mae Anni'n drist ac yn poeni am Ellis. Mae'n chwilio am y sêr, am rywbeth i godi ei chalon, ond nid yw'n gallu gweld gobaith. (Ond wrth gwrs, fel y dywedodd Ellis, maen nhw'n dal yno achos 'fedar neb ddiffodd y sêr'). |
| *Os ydi Duw mor ffeind, pam ei fod o'n gadael i Ellis ni fynd i ryfel? A pham ei fod o wedi gorfodi Dewyrth Ifor i ddod adra heb hanner ei wyneb?* tud. 51 | **Mae Anni'n poeni yma am yr holl bobl sy'n dioddef ac mae'n dechrau amau Duw.** | Mae hwn yn llawn cwestiynau rhethregol. Mae Anni yn cwestiynu popeth. Dydy hi ddim yn deall y pethau ofnadwy sy'n digwydd i'r bobl sy'n bwysig yn ei bywyd, ac mae'n gofyn pam mae Duw yn gadael i bethau ofnadwy ddigwydd. |
| *Sŵn y ceffyl yn disgyn wrth i ddarn o shell ei daro ac agor clwyf tywyll, hir ar draws ei ystlys, a'i ymysgaroedd yn dianc yn boeth ar y pridd du, a'r stêm yn codi i'r awyr...* tud. 65 | **Disgrifiad Ifor o geffyl yn marw yn y rhyfel. Mae'n sôn am hyn yn ei lythyr at Citi.** | Dyma ddisgrifiad ofnadwy o real sydd yn mynd i wneud i rai pobl deimlo'n sâl. Mae yma ddarlun manwl a graffig o'r ceffyl yn cael ei daro gan *shell* a'i stumog yn byrstio. |
| *...a llithrodd fel sarff tuag ataf i gael edrych ar y bag yn fy llaw.* tud. 75 | **Disgrifiad o Gwen Jones. Mae hi wedi gweld Anni'n rhoi'r bag bach melfed yn ôl.** | Gair arall am neidr yw sarff ac mae Gwen Jones fan hyn yn slei a chas. Mae'n amlwg o'r disgrifiad nad yw Anni'n ei hoffi. |
| *...am y cyfnod hwnnw, yn ystod y dyddiau hir, heulog, ffermwr oedd Ellis, a chribin, nid gwn oedd yn ei law.* tud. 93 | **Geiriau Anni yw'r rhain eto. Mae'n sôn am y cyfnod pan ddaeth Ellis adref o Litherland am rai wythnosau i helpu ar y fferm – cyfnod hapus.** | Mae'n amlwg mai dyma'r gwir Ellis – ffermwr gyda chribin (rhaca) nid milwr gyda gwn. Mae pawb yn hapus ei gael gartref. Mae'r tywydd yn heulog – tywydd braf i gyd-fynd â chyfnod braf. Ond wrth gwrs mae pawb yn gwybod y bydd yn gorfod mynd yn ôl. |

# Ugain dyfyniad pwysig

| DYFYNIAD | PWY A PHRYD? | BETH YDYN NI'N EI DDYSGU O'R DYFYNIAD? |
|---|---|---|
| *O, na fyddwn i lawr wrth lan afon Prysor a'i phyllau gloyw...* <br> tud. 107 | **Mae Ellis yn ysgrifennu hyn yn ei lythyr adref o Wlad Belg.** | Mae hiraeth ar Ellis am adref. Mae'n amlwg ei fod yn caru byd natur a'r lleoedd o gwmpas Trawsfynydd. Mae'r 'pyllau gloyw' yn wrthgyferbyniad i'r dŵr budr yn y ffosydd. |
| *Mae yna gymaint o fechgyn yr ardal wedi bod yn y front line ac yn dal yno yn rhywle o dan y pridd. Lle ofnadwy ydi o, meddan nhw, ond dwi'n trio peidio â gwrando.* <br> tud. 108-109 | **Geiriau Anni pan glywn am fechgyn yn marw. Nid yw hi eisiau clywed ac mae'n 'trio peidio â gwrando'.** | Mae bechgyn Trawsfynydd yn cael eu lladd ac mae hanesion ofnadwy yn cyrraedd y pentref. Ond ymateb Anni yw ceisio peidio â gwrando. Dyma sut mae hi'n delio gyda newyddion gwael – ceisio ei anwybyddu. |
| *Wyddon ni ddim faint o goel i'w rhoi ar y papurau newydd erbyn hyn, mae cymaint o gelwydd wedi'i ddweud.* <br> tud. 114 | **Meddyliau Anni am gynnwys y papurau newydd sydd yma. Nid yw'n eu credu.** | Mae'n dangos nad oedd pobl yn gallu credu'r papurau newydd am eu bod yn llawn propaganda. Roedd y llywodraeth eisiau i bobl gredu bod popeth yn mynd yn dda, ond roedd pobl gyffredin yn dechrau amau'r straeon yn y papurau. |
| *Dwi'n edrych i fyny, ond mae'r sêr i gyd wedi'u diffodd.* <br> tud. 120 | **Mae Anni'n gwneud hyn ar ôl clywed fod Ellis, ei brawd, wedi ei ladd yn y rhyfel.** | Roedd Ellis wedi dweud wrth Anni na fyddai unrhyw berson yn gallu diffodd y sêr. Ond fan hyn, **nid** yw Anni'n gallu teimlo'n hapus o gwbl. Er ei bod yn chwilio am y sêr, nid yw'n gallu eu gweld. Mae'n chwilio am gysur ond does dim i'w gael. |
| *Cadair dal a hardd ond does neb yn eistedd arni.* <br> tud. 121 | **Dyma ddisgrifiad o'r gadair a enillodd Ellis yn Eisteddfod Birkinhead ar ôl iddo farw. Mae hi wedi dod yn ôl i'r Ysgwrn i'r teulu ei chadw.** | Dyma frawddeg sy'n hapus a thrist ar yr un pryd. Mae'n chwerw-felys. Mae'r gadair yn un hyfryd ac maen nhw'n falch ohoni, ond mae ei pherchennog (Ellis) wedi marw. Does neb yn mynd i gael eistedd ynddi rhagor. |

# Ugain dyfyniad pwysig

| DYFYNIAD | PWY A PHRYD? | BETH YDYN NI'N EI DDYSGU O'R DYFYNIAD? |
|---|---|---|
| *Mi fydd y gadair yma tra byddwn ni yn yr Ysgwrn, dwi'n gwybod hynny. Mi fydd hi yma'n atgof o Hedd Wyn, y bardd. Mi fydd yma'n atgof o Ellis Humphrey Evans, ein Elsyn annwyl ni. Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.* tud. 122 | **Mae Anni'n dweud bod y gadair yn mynd i atgoffa pobl o Ellis a phob bachgen arall a gollodd ei fywyd.** | Dim ond ar ddiwedd y nofel y mae sôn am y gadair hon, ond mae hi'n bwysig iawn i'r stori. Mae'n cynrychioli breuddwyd Hedd Wyn. Roedd gan lawer o'r bechgyn eraill a fu farw eu breuddwydion hefyd, ac mae Anni yma'n dweud bod y gadair yno i'n hatgoffa o bob un a fu farw. Roedden nhw i gyd yn perthyn i rywun. Mae'n ein hatgoffa o'r bywyd a wastraffwyd mewn rhyfel. |
| *Rydw i'n gwenu; fydd Lora ddim angen carreg wen i ddod â lwc iddi heddiw.* tud. 122 | **Dyma frawddeg olaf y nofel. Mae Anni ar ei ffordd i briodas Lora ac mae'n hapus.** | Mae Anni wedi bod yn ofergoelus drwy'r nofel e.e. yn codi cerrig gwyn rhag i rywbeth gwael ddigwydd. Ond mae Anni wedi newid a dod yn gallach. Hefyd, mae'r darn hwn yn ddiwedd hapus i'r nofel. Mae cariad yn ennill ac mae'r rhyfel bron ar ben. |

# Dadansoddi arddull

1. Edrychwch ar arddull y llinell hon. Dywedwch pam mae'n effeithiol.

'Roedd Lora'n syllu arno â'i cheg ar agor fel sgodyn a'i bochau'n writgoch.' – tud. 39

| Pwy a ble | Enwi nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith | Beth ddysgwn ni |
|---|---|---|---|---|
| Dyma ymateb Lora ar ôl cyfarfod â Hywel am y tro cyntaf. | Cyffelybiaeth/cymhariaeth | 'â'i cheg ar agor fel sgodyn' | Mae'n edrych arno yn gegagored fel y bydd pysgodyn yn edrych. Mae'n edrych ychydig yn wirion. | Mae Lora'n amlwg yn hoffi Hywel ac mae'n edrych arno mewn rhyfeddod. |
| | OPSIWN ARALL:<br>Gair cyfansawdd | 'bochau'n writgoch' | Mae'r awdur wedi rhoi dau air at ei gilydd sef gwrid + coch. Rydyn ni'n gwrido/cochi pan fyddwn ni'n teimlo'n anghyfforddus (to blush). Mae dau air sy'n dweud yr un peth yn pwysleisio ei bod hi wedi cochi. | Mae Lora'n cochi am ei bod yn hoffi Hywel a dydy hi ddim yn gwybod beth i'w ddweud na'i wneud efallai. |

Ateb ar ffurf paragraff:

Mae'r darn yn dweud beth oedd ymateb Lora i Hywel ar ôl iddi ei gyfarfod am y tro cyntaf. Mae'r gyffelybiaeth sef 'â'i cheg ar agor fel sgodyn' yn effeithiol oherwydd ei bod yn dangos ei bod mewn sioc, a bod ei cheg yn agored fel un pysgodyn. Mae'n dangos nad yw hi'n gwybod beth i'w ddweud ac mae'n amlwg yn hoffi Hywel.

# Dadansoddi arddull

2. Edrychwch ar arddull y llinell hon. Dywedwch pam mae'n effeithiol.

'Mae yna sibrydion, rhyw sisial tawel fel y gwynt trwy ddail y coed, ond rydan ni'n trio gadael i'r rheiny fynd heibio i ni, heb wrando gormod arnyn nhw.' - tud.114-115

| Pwy a ble | Enwi nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith | Beth ddysgwn ni |
|---|---|---|---|---|
| Dyma beth mae Anni'n meddwl tua diwedd y nofel. Mae'r teulu yn yr Ysgwrn yn poeni am Ellis allan yng Ngwlad Belg am eu bod wedi clywed sibrydion bod pethau'n ddrwg yno. | Cyffelybiaeth/cymhariaeth | 'rhyw sisial tawel fel y gwynt trwy ddail y coed' | Mae hyn yn effeithiol oherwydd bod gwynt fel rheol yn oer ac mae'n gwneud teulu'r Ysgwrn yn anghyfforddus. Er bod y papurau newydd yn llawn propaganda, mae gwybodaeth am bethau gwael yn cyrraedd Trawsfynydd. Ond dim ond sibrydion tawel fel gwynt yn y coed ydyn nhw. | Maen nhw'n ceisio anwybyddu'r sibrydion hyn a bod yn bositif. |

Ateb ar ffurf paragraff:

Mae'r darn hwn yn dangos bod Anni a'r teulu yn poeni am Ellis. Mae'r gyffelybiaeth sef 'rhyw sisial tawel fel y gwynt trwy ddail y coed' yn disgrifio'r straeon maen nhw wedi eu clywed. Mae hyn yn effeithiol oherwydd fod gwynt fel rheol yn oer ac mae'n gwneud teulu'r Ysgwrn yn anghyfforddus. Er bod y papurau newydd yn llawn propaganda, mae gwybodaeth answyddogol am bethau gwael yn cyrraedd Trawsfynydd. Ond dim ond sibrydion tawel fel gwynt yn y coed ydyn nhw.

# Dadansoddi arddull

3. Edrychwch ar arddull y llinell hon. Dywedwch pam mae'n effeithiol.

'Roedd yr wyneb a'r croen wedi crebachu, fel cwyr wedi bod yn rhy agos at fflam, ac wedi toddi'n siapiau dieithr, yn greithiau coch a phiws. A'r geg yn ogof o groen llac, diwefus.' - tud.33

Mae sawl nodwedd arddull yma. Chwiliwch am enghraifft o:

- ansoddeiriau effeithiol (mae sawl un yma)
- cyffelybiaeth/cymhariaeth
- trosiad

| Pwy a ble | Enwi nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith | Beth ddysgwn ni |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o wyneb Ifor ar ôl iddo ddod adref. | Ansoddeiriau effeithiol | | | |
| | Cyffelybiaeth/cymhariaeth | | | |
| | Trosiad | | | |

# Dadansoddi arddull

4. Edrychwch ar arddull y llinell hon. Dywedwch pam mae'n effeithiol.

'Fedrwn i ddim gwylio rhagor. Faint mwy o wahanu sydd raid?' - tud.95

Mae sawl nodwedd arddull yma. Chwiliwch am enghraifft o:

- cwestiwn rhethregol
- brawddegau byr

| Pwy a ble | Enwi nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith | Beth ddysgwn ni |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o wyneb Ifor ar ôl iddo ddod adref. | Cwestiwn rhethregol | | | |
| | Brawddegau byr | | | |

# Enghreifftiau o nodweddion arddull

**Ar y tudalennau nesaf mae enghreifftiau o nodweddion arddull. Eich tasg chi yw eu dadansoddi gan ddilyn y patrwm**

| Pwy a ble | Enw'r nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith | Beth ddysgon ni |
|---|---|---|---|---|
| | Trosiad | Lleidr geiriau ydy Gwen Jones... | | |

## Cyffelybiaeth/ cymhariaeth

'Felly rydw i fel io-io yn mynd a dŵad efo parseli bwyd, i lawr y ffordd ac i fyny yn fy ôl.' tud. 30

'Does ganddon ni ddim les ar ffenestri yr Ysgwrn chwaith. Mae Bob yn dweud mai'r rheswm am hynny ydi fod coesau pryfaid cop yn mynd yn sownd yn y les, a'u bod nhw yno wedyn fel byddin, yn sownd yn eu hunfan.' tud. 31

'Roedd yr wyneb a'r croen wedi crebachu, fel cwyr wedi bod yn rhy agos at fflam, ac wedi toddi'n siapiau dieithr, yn greithiau coch a phiws. A'r geg yn ogof o groen llac, diwefus.' tud.33

'Pam fod Wil Ffurat yn dod i'r golwg bob amser pan mae rhywun leiaf angen ei weld o? Mae o fel llygoden fawr a'i drwyn bach main yn gallu ogleuo unrhyw friwsionyn o stori neu helbul.' tud. 36

'Roedd Lora'n syllu arno â'i cheg ar agor fel sgodyn a'i bochau'n writgoch...' tud. 39

Ellis yn dweud, '...ond does yna ddim ceg, dim ond twll fel ogof, 'Nhad.' tud. 47

Gwen Jones yn dod i mewn i'r siop '...a llithrodd fel sarff tuag ataf...' tud. 75

'...y nwy yn dod amdanon ni fel gwynt drwg rhyw anifail rheibus.' tud. 62

'Mae yna sibrydion, rhyw sisial tawel fel y gwynt trwy ddail y coed, ond rydan ni'n trio gadael i'r rheiny fynd heibio i ni, heb wrando gormod arnyn nhw.' tud. 114

## Trosiad

'Lleidr geiriau ydi Gwen Jones, mae hi'n dwyn eich geiriau cyn i chi fod wedi'u gollwng o'ch ceg.' tud. 13

'roedd y pwythau bach, cywrain yn ffurfio siâp llygaid, siâp llygaid yn fy ngwylio, yn gwenu arna i'n ddieflig.' tud. 74

"Paid â gadael i'r rhyfel yma dorri dy ysbryd di... rwyt ti'n ifanc a dy fywyd o dy flaen di. Paid â gadael i'r hen dywyllwch yma dy fygu di – addo hynny i mi, Anni." tud. 41

Hywel yn dweud, 'A dyma finna'n cyrraedd Traws i agor yr hen grachen...' tud. 112

'Roedd hi'n fy atgoffa o aderyn bach ofnus wedi'i gau mewn ystafell ac yn methu dod o hyd i'r ffordd allan.' tud. 101



cbac wjec

‘Roedd yr wyneb a’r croen wedi crebachu, fel cwyr wedi bod yn rhy agos at fflam, ac wedi toddi’n siapiau dieithr, yn greithiau coch a phiws. A’r geg yn ogof o groen llac, diwefus.’ tud. 33

Roedd meddwl am Hywel yn gyrru Ifor ‘i’r pwll du yna sy’n dod drosto fo weithia...’ tud. 89

## Sylwi manwl

‘Cerddai’n gyflym, gan wneud camau bach herciog, a’i hwyneb yn astudio’r ffordd o’i blaen fel tasa hi ofn baglu. Roedd hi’n anadlu’n gyflym ac yn dweud rhywbeth wrthi ei hun, ei bysedd yn plycio yn rhuban ei het.’ tud.102

## Symbol – (sêr; adar...)

Y sêr - ‘Fedar neb ddiffodd y sêr. Neb.’ tud. 49

‘Mi es inna’n ôl i ’ngwely wedyn, ac agor mymryn ar y llenni i mi gael cip ar y sêr, ond mae’n rhaid ’mod i wedi cysgu, achos welais i’r un.’ tud. 49

‘Dwi’n edrych i fyny, ond mae’r sêr i gyd wedi’u diffodd.’ tud. 120

*Cyn i’r llythyr gyrraedd yn sôn am farw Ellis:*

‘uwch fy mhen gallwn glywed sŵn cwyno dau hen fwncath. Gwelais y ddau aderyn yn cylchu, rownd a rownd, yn nesáu at eu hysglyfaeth. Dechreuais grynu yno yng nghanol gwres mis Awst wrth i gysgod eu hadenydd anferth ddod rhyngof i a’r haul.’ tud. 119

‘Dwi’n cofio i mi weld brân unwaith, wedi brifo’i hadain, yn mynd yn sownd yn y cae bach lle mae’r ieir. Un aderyn dieithr yng nghanol byddin o ieir. Doedd y frân ddim yn perthyn. Fu’r ieir ddim yn hir efo’r frân – yn ei phigo a’i phluo’n fyw, nes nad oedd dim ar ôl ond corff gwaedlyd, llonydd wrth ymyl y cut ieir.’ tud. 59-60

## Ailadrodd

“Paid â newid, Anni fach, paid â newid dim.” tud. 42

‘Nid yr hen Ellis hwyliog oedd hwn. Nid ein Ellis direidus ni.’ tud. 41

‘Dy fam yn gwylltio?’ Doeddwn i’n adnabod neb efo amynedd fel Dodo Citi. Fyddai hi byth yn dwrdio, byth yn colli ei thymer nac yn codi ei llais.’ tud. 82

‘Mi wyddwn i am y milwyr y câi eu hanfon adra o’r ffosydd oherwydd eu bod nhw wedi’u hanafu mor ddrwg fel na fydden nhw’n gallu ymladd eto. Mi wyddwn i hefyd am ddynion yn dod yn ôl yn fethedig, heb goesau, ac yn medru gwneud dim heblaw eistedd yn edrych ar y tân trwy’r dydd.’ tud. 20

Llythyrau Ellis yn gwneud i Anni deimlo’n well, ‘fel tasa yna ddarn bach ohono’n dod yn ei ôl i gegin yr Ysgwrn efo’r llythyr, fel taswn i’n gallu clywed ei lais o’n dweud ei fod o’n iawn...’ tud. 109

## Berf drosiadol

Ar ôl i Anni ddwyn y bag melfed, ‘sgrechiodd cloch y drws yn ddig.’ tud. 71

## Brawddegau byr

'Dim corff. Dim bedd.' tud. 113

'Fedrwn i ddim gwylio rhagor. Faint mwy o wahanu sydd raid?' tud. 95

## Amrywio hyd brawddegu

'Mi fasa pawb arall wedi cael niwmonia. Dyna pam nad ydw i'n poeni erbyn hyn amdano fo'n mynd i Lerpwl i'r gwersyll hyfforddi, achos mi fydd Ellis ni'n iawn. Mae o bob amser yn iawn.' tud. 25

## Cwestiwn rhethregol

'Dwi ddim yn siŵr fedr neb ddysgu Ellis i fod yn filwr. Mae milwyr i fod i ladd dynion yn tydyn? Doedd Ellis ddim llawer o eisiau lladd y ceiliog at ginio Dolig, hyd yn oed.' tud. 28

'Yn wir, roeddwn i eisiau rhedeg allan a bloeddio ar ôl yr hen wrach yna. Pa hawl oedd ganddi hi siarad fel'na efo Mam?' tud. 15

'Oeddwn i'n anghywir i deimlo cyffro a hapusrwydd, tra oedd Lora a'i theulu yng nghanol pryder dychrynllyd?' tud. 41

'Dy fam yn gwylltio?' Doeddwn i'n adnabod neb efo amynedd fel Dodo Citi. Fyddai hi byth yn dwrdio, byth yn colli ei thymer nac yn codi ei llais.' tud. 82

'Beth oedd yno? Ellyll? Anghenfil? Fedrwn i ddim peidio ag edrych.' tud. 33

'Os ydi Duw mor ffeind, pam ei fod o'n gadael i Ellis ni fynd i ryfel? A pham ei fod o wedi gorfodi Dewyrth Ifor i ddod adra heb hanner ei wyneb?' tud. 51

'Fedrwn i ddim gwylio rhagor. Faint mwy o wahanu sydd raid?' tud. 95

## Ansoddeiriau

'Roedd yr wyneb a'r croen wedi crebachu, fel cwyr wedi bod yn rhy agos at fflam, ac wedi toddi'n siapiau dieithr, yn greithiau coch a phiws. A'r geg yn ogof o groen llac, diwefus.' tud. 33

'Roedd ein sylw i gyd ar y bachgen dieithr, pryd tywyll a oedd yn sefyll yn swil ar ymyl y llwybr.' tud. 38-39

## Defnydd o italig

"Ond does dim *rhaid*" ymbiliodd Mam, a gallwn ddweud ei bod hi eisiau codi a gafael yn ysgwyddau Ellis a'i ysgwyd.

"Oes, mae'n rhaid," meddai Ellis wedyn, er na fedrai o godi'i ben i edrych ar Mam chwaith.' tud. 17

## Rhestru

Y gadair - 'Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau

pobl eraill.' tud. 122

'Dy fam yn gwylltio?' Doeddwn i'n adnabod neb efo amynedd fel Dodo Citi. Fyddai hi byth yn dwrdio, byth yn colli ei thymer nac yn codi ei llais.' tud. 82

'Mi wyddwn i am y milwyr y câi eu hanfon adra o'r ffosydd am eu bod nhw wedi'u hanafu mor ddrwg fel na fydden nhw'n gallu ymladd eto. Mi wyddwn i hefyd am ddynion yn dod yn ôl yn fethedig, heb goesau, ac yn medru gwneud dim heblaw eistedd yn edrych ar y tân trwy'r dydd.' tud. 20

'Ond Anni, mae yna betha eraill rydan ni'n eu dewis, cofia – bod yn ffeind neu'n flin, yn ffyddlon neu'n anffyddlon. Dewis ydi hynny.' tud. 78

## Cyferbyniad

'...mae Dodo Citi y glenia o bobl fel arfer, ond roedd ei hwyneb hi'n welw a di-wên.' tud. 30

Mam Anni: 'Yn addfwyn ac yn freuddwydiol weithiau ac yna'n bigog a diamynedd dro arall.' tud. 24

# Arddull llythyr Ifor

Mae yma lawer o ddisgrifiadau manwl iawn o arswyd y rhyfel. Isod, mae dau ddarn o'r llythyr.

> '...y nwy yn dod amdanon ni fel gwynt drwg rhyw anifail rheibus. A'r gynnau mawr yn ein torri ni i lawr fel pladur mewn cae haidd. Roedd yr hogia wedi blino, ein dillad ni'n wlybion a'n traed ni'n gignoeth am ein bod wedi bod yn rhy hir mewn sgidia gwlyb a dim byd i'w wneud ond eu diodde nhw. Ac wedyn y chwain a'r llau. Roedd ein clustia ni'n ei chael hi, ac yn friwia i gyd gan frathiadau'r diawliaid bach.'

Chwiliwch am y nodweddion arddull yn y brawddegau isod. Bydd y termau hyn o help i chi efallai:
**gair cyfansawdd; brawddeg fer; cyffelybiaeth; rhestru; ffurfiau llafar...**

| | Nodwedd arddull | Enghraifft | Sut mae'n effeithiol? Ydy e'n dda? Pam? | Beth ydyn ni'n ei ddysgu? |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | ...y nwy yn dod amdanon ni fel gwynt drwg rhyw anifail rheibus. | | |
| 2 | | A'r gynnau mawr yn ein torri ni i lawr fel pladur mewn cae haidd. | | |
| 3 | | Roedd yr hogia wedi blino, ein dillad ni'n wlybion a'n traed ni'n gignoeth | | |
| 4 | | yn gignoeth | | |
| 5 | | Ac wedyn y chwain a'r llau. | | |
| 6 | | clustia, briwia | | |

# Arddull llythyr Ifor

‘A’r sŵn. Sŵn byddarol y gynnau mawr, y sgrechfeydd a griddfan y dynion, y swyddogion yn rhuo ordors, a gwich y *shells* yn disgyn o’n cwmpas. Ond mae yna un sŵn rydw i’n ei gofio’n glir, fedra i ddim deall pam. Sŵn un o’r ceffylau’n gweryru – sŵn llai na’r rhan fwyaf o synau mae’n debyg, ond mae o’n aros yn glir yn y cof. **Sŵn y ceffyl yn disgyn wrth i ddarn o *shell* ei daro ac agor clwyf tywyll, hir ar draws ei ystlys, a’i ymysgaroedd yn dianc yn boeth ar y pridd du, a’r stêm yn codi i’r awyr...** Sŵn y byd yn darfod oedd y sŵn yna. Sŵn y byd yn darfod am byth.’

Darllenwch Darn B. Chwiliwch am enghreifftiau o’r nodweddion arddull. Mae enw’r nodwedd arddull wedi ei roi i chi.

| | Nodwedd arddull | Enghraifft | Sut mae'n effeithiol? Ydy e’n dda? Pam? | Beth ydyn ni’n ei ddysgu? |
|---|---|---|---|---|
| 1 | ailadrodd | | | |
| 2 | ansoddeiriau cryf | | | |
| 3 | rhestru | | | |
| 4 | geirfa Saesneg | | | |

**Geirfa**. Ydych ch’n gwybod beth yw ystyr **a. clwyf** ____________ **b. ystlys** ____________ **c. ymysgaroedd** ______________

Sut rydych chi’n teimlo nawr wrth ddarllen y frawddeg am y ceffylau mewn print trwm uchod? Ydy’r disgrifiad yn effeithiol? Pam? A oes nodweddion arddull diddorol wedi eu defnyddio?

.............................................................................................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................................................................................

# Ai nofel ddigalon yw hi?

Darllenwch y gosodiadau yn y swigod a lliwiwch nhw yn ôl y côd:

Melyn = hapus

Glas = trist/ digalon

Coch = ddim yn siŵr

Mae pobl yn dal i fwrw ymlaen â'u bywydau o ddydd i ddydd er gwaethaf popeth.

Mae Lora a Hywel yn priodi ar y diwedd.

Mae tad Hywel yn fyw ac yn dod adref.

Mae Ellis wedi dweud nad oes neb yn gallu diffodd y sêr – dim ond y wawr.

Mae'r nofel yn sôn am filwyr yn dioddef adeg y Rhyfel Mawr.

Mae Ifor, tad Lora, yn dechrau gwella er iddo gael ei anafu'n ddrwg.

Mae Hedd Wyn yn marw ac ni chafodd eistedd yn y gadair a enillodd yn Eisteddfod Birkinhead.

Efallai y bydd Wil ac Anni'n dod yn fwy o ffrindiau.

Mae disgrifiadau o realiti ofnadwy rhyfel yn y nofel.

Ydych chi'n credu ei bod hi'n nofel ddigalon?

Nid yw Anni'n gallu gweld y sêr ar ôl clywed bod Ellis wedi marw.

Mae Anni'n dweud ar y diwedd nad oes angen carreg ar Lora i roi lwc dda iddi.

**PAM?**

Enillodd Hedd Wyn y gadair ac mae'r gadair honno yn ein hatgoffa o'r bobl ifanc a fu farw.

# Cwis manylion bach

## 1.

1. Beth dderbyniodd mam Lora ar ddechrau'r nofel?
2. "Ein hogia ni fydd yno i guro'r Almaenwyr, reit tan y diwadd." Geiriau pwy yw'r rhain yn ôl Wil Ffurat?
3. Pa enw cas oedd Wil yn galw Lora?
4. Roedd Anni wedi bod yn sâl. Beth oedd yn bod arni?
5. Pam mae Anni'n meddwl ei bod 'wedi colli Lora fel ffrind gorau am byth'?
6. Beth oedd yn bod ar lygaid a thrwyn Lora?
7. Roedd Lora wedi rhoi'r garreg ar ei bys fel carreg modrwy. Pwy oedd hi'n dweud y byddai'n ei briodi?

## 2.

1. Pwy oedd yn cael te gyda mam Anni?
2. "O leiaf mae o'n un o'r rhai lwcus..." Am bwy mae Gwen Jones yn siarad?
3. Beth oedd enw mab Gwen Jones a ble oedd e?
4. Pam byddai'n rhaid i Ellis neu Bob fynd i ymladd?
5. Ble oedd Maggie wedi bod ar drip gyda'r capel pan oedd hi'n 14?
6. Roedd Anni wedi gweld ei mam yn crio go iawn am y tro cyntaf. Pam oedd hi'n crio?
7. I ble oedd Ellis yn mynd y diwrnod wedyn?

## 3.

1. Pam nad oedd Lora'n cael mynd i weld ei thad yn yr ysbyty?
2. Faint oedd oed Jim?
3. Roedd misoedd yn y ffosydd wedi 'chwalu' pen dyn o'r Blaenau. Beth oedd e'n gweiddi yng nghanol nos ar y stryd?
4. A roddwyd rheswm ar y telegram yn dweud pam yr oedd tad Lora 'yn gadael y brwydro'?
5. Beth wnaeth tad Huw Rhos er mwyn cael dod adref?
6. Rhoddodd Anni un o'i thrysorau mwyaf i Lora am ei bod yn crio. Beth oedd e?
7. Pryd oedd Anni wedi derbyn y 'trysor' hwn a phwy roddodd e iddi?

## 4.

1. Am beth oedd Ellis wedi ennill gwobr yn y cyfarfod cystadleuol y noson cynt?
2. Pencadlys pa gatrawd oedd Ellis wedi ymuno â hi yn Wrecsam?
3. Beth oedd Ellis yn ceisio gorffen cyn mynd i ffwrdd?
4. Pam mae Ellis yn aros yn effro drwy'r nos?
5. Beth oedd yr enw yr oedd Ellis yn ei ddefnyddio pan fyddai'n barddoni a chystadlu?
6. Pwy sy'n tynnu coes Ellis fwyaf am ei farddoniaeth a'i berthynas gyda Jini?
7. Beth oedd Ellis yn gofyn i Anni wau iddo?

## 5.

1. Pwy oedd yr unig un oedd yn cael cyffwrdd ym mhapurau Ellis?
2. Pwy oedd wedi danfon parsel o siwgr, te a jam eirin i Ellis fynd gydag e?
3. Pam mae Dodo Citi yn cau'r drws ar Anni am ychydig pan aeth hi â wyau draw iddyn nhw?
4. Pam mae Anni'n meddwl bod llenni les ar ffenestri cartref Lora?
5. Sut dywydd oedd Anni'n gweddïo amdano a pham?
6. Pam mae Jim yn 'nadu ac igian a gwingo'?
7. Pwy aeth i weld Ifor ar ôl i Anni ei weld?

# Cwis manylion bach

cbac wjec

## 6.

1. Pwy oedd ‘fel llygoden fawr a’i drwyn bach main yn gallu ogleuo unrhyw friwsionyn o stori’?
2. Pam mae Ned, brawd Lora, wedi cael y gansen yn yr ysgol?
3. Beth oedd enw llawn y bachgen dieithr ‘pryd tywyll, tua phymtheg oed’ a oedd gyda Wil?
4. Ble oedd pawb yn mynd i gyfarfod y noson wedyn?
5. Pam mae Anni’n teimlo’n euog?
6. Pwy sy’n dweud hyn ac wrth bwy, “Paid â gadael i’r rhyfel yma dorri dy ysbryd di...”?
7. A oedd Ellis yn credu bod hawl gan Anni fod yn hapus?

## 7.

1. Roedd y merched yn Lerpwl yn dangos eu ‘fferra’ (pigyrnau) ac yn gwisgo esgidiau gyda sodlau main a byclau ar eu hochr. Pwy oedd yn credu bod hyn yn ofnadwy?
2. Pwy oedd yn credu bod ceir (fel y rhai yn Lerpwl) yn ‘hen dacla peryg’?
3. Roedd Maggie wedi bod yn y pictiwrs yn Lerpwl. Symbol o beth oedd y ferch hardd oedd yn eistedd yn drist ar y traeth?
4. Am bwy oedd Tada ac Ellis yn siarad ar ôl i Anni ac Enid fynd i’r gwely?
5. Pam mae Anni wedi gwisgo ei chot a’i sanau unwaith eto (tud. 47)?
6. Beth oedd teitl yr awdl yr oedd Ellis yn ysgrifennu?
7. ‘Fedar neb...ddiffodd y sêr’. Beth yw’r unig beth sy’n gallu eu diffodd?

## 8.

1. Beth oedd y plant wedi ei addo wrth wneud ‘amod dirwest’ yn y Band of Hope?
2. Beth oedd yn y llun ddangosodd Mr Jones iddynt?
3. Byddai Hywel yn hoffi mynd adref. I ble?
4. Ers faint oedd tad Hywel wedi bod ar goll?
5. Ym mha frwydr oedd e pan aeth ar goll?
6. Pan wnaeth Anni a Lora weld Jim, gyda phwy oedd e?
7. Beth wnaeth tad Lora pan oedd Dodo Citi yn sôn am y Somme?

## 9.

1. Pwy oedd wedi mynd o flaen Ellis i’r stesion gyda sach oedd yn cynnwys ei bethau?
2. Ble yn Lerpwl oedd y gwersyll hyfforddi?
3. Beth oedd Ellis wedi addo ei ysgrifennu i Enid?
4. Beth oedd y dyddiad pan aeth Ellis i ffwrdd (tud.58)?
5. Beth roddodd mam Anni yn y fasged er mwyn helpu Ifor?
6. Sut oedd tad Lora’n yfed?
7. Ble oedd Dodo Citi wedi cadw’r llythyr oddi wrth Ifor?

## 10. LLYTHYR IFOR

1. Beth oedd enw’r goedwig roedden nhw i fod i’w chipio?
2. Ym mha flwyddyn y digwyddodd hyn?
3. Roedd pedwar ffrind gyda’i gilydd – Ifor, Gruff Wmffra, Iori Park Place a phwy?
4. Pa un o’r pedwar gafodd ei ladd?
5. Pwy gafodd ei gario ‘dros y top’ am ei fod yn crio ac yn gwrthod mynd?
6. Roedd llawer o sŵn ar faes y frwydr. Nodwch o leiaf dri o’r synau hyn.
7. Pwy gafodd ei daro gyntaf – Gruff neu Ifor?
8. A gafodd Gruff ei gario yn ôl i’r ffos i gael sylw meddygol?

(gw. hefyd y nodiadau ‘Stori Ifor’)

cbac wjec

## Cwis – dyma'r atebion. Beth yw'r cwestiwn?

## 11.

1. chwydu
2. burum
3. llwynog
4. bag bach melfed
5. Enid
6. Mrs Lloyd
7. i'r ffos lle roedd carthion/ dom ceffyl

## 12.

1. blodyn les wedi ei wneud gan Maggie
2. euog
3. gadael ysgol
4. eiddigeddus/ cenfigennus
5. llusgo coed gyda cheffylau
6. Gwen Jones
7. dewis yn ddoeth

## 13.

1. i helpu gyda'r aredig
2. Litherland
3. 'hogyn drwg'
4. eisiau priodi
5. ei fod yn dal yn fyw
6. Ifan
7. na fyddai'n dweud wrth neb

# Cwis manylion bach

cbac wjec

## 14.

1. Pam nad oedd yn rhaid i Enid ac Anni fynd i'r ysgol?
2. Beth roddodd Ellis yn anrheg i Jini?
3. Beth oedd enw'r gerdd y daeth Anni o hyd iddi o dan y bwrdd?
4. Stori am beth oedd yn y gerdd?
5. Pa wobr gafodd Ellis am ei farddoniaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth y flwyddyn cynt?
6. Beth oedd yr enw arall roedd y teulu'n ei ddefnyddio am Ellis?
7. Ble addawodd Ellis fynd ag Anni pan fyddai'n dod adref?

## 15.

1. Pam mae Lora'n crio?
2. Beth ofynnodd Lora i Anni wneud drosti?
3. Beth oedd hi bron â gwneud i'r llythyr?
4. Geiriau pwy ynglŷn â 'dewis' gofiodd Anni pan oedd y llythyr yn ei llaw?
5. Beth wnaeth hi â'r llythyr?

## 16.

1. Ble oedd Anni'n eistedd yn gwrando ar Jini ac Ellis?
2. Beth oedd yn mynd i ddigwydd y diwrnod canlynol?
3. Ble oedd Ellis yn disgwyl mynd yn fuan ar ôl mynd yn ôl i Litherland?
4. Ble oedd Jini eisiau mynd gydag Ellis ar ddiwedd yr haf?
5. Beth wnaeth Jini addo gwneud?
6. Ble aeth Anni i guddio am nad oedd hi eisiau gwylio'r gwahanu?

## 17.

1. 'Edrychais arno ac roedd ei wyneb yn wahanol rywsut, yn fwy difrifol.' Pwy oedd Anni'n edrych arno?
2. Ble yn Ffrainc oedd Ellis ar y pryd?
3. O ble wnaeth e hwylio?
4. Beth oedd y cartŵn oedd Ellis wedi ei ddanfon i Enid ac Anni?
5. Mewn beth gwelodd Ellis flodau'n tyfu a gweld neges o obaith yn hynny?
6. Roedd Wil Ffurat wedi gadael yr ysgol a dechrau gweithio. Beth oedd ei waith?
7. Beth oedd Gwen Jones wedi gweld Lora'n ei wneud?
8. Beth ddywedodd Dodo Citi wrth Lora er mwyn iddi deimlo'n euog am ei pherthynas gyda Hywel?
9. Pwy ddaeth i mewn i siop Mrs Lloyd pan oedd Lora, Jim ac Anni yno?
10. Beth oedd enw cartref Lora?

## 18.

1. Sut oedd y wraig ddieithr yn ymddwyn pan ddaeth hi i gyfarfod Anni a Jim ar y ffordd o Tŷ'n Rhos?
2. Pwy oedd y dyn ifanc ar waelod yr allt/ rhiw?
3. Ble oedd Dewyrth Ifor pan aethon nhw i'r tŷ?
4. Pwy oedd y person olaf i weld tad Hywel?
5. Beth oedd enw'r milwr oedd wedi rhoi rhai o bethau tad Hywel i fam Hywel?
6. Ble oedd y frwydr y buon nhw ynddi?
7. Beth ddywedodd Ifor, tad Lora gan wneud i Jim chwerthin?
8. I ble redodd Jim?

# Cwis manylion bach

## 19.
LLYTHYR ELLIS

1. Yn ôl Ellis, pa wlad oedden nhw wedi cyrraedd ar ôl gadael Ffrainc?
2. Beth oedd y fyddin wedi ei wneud gan droi'r tir yn wlyb ac yn 'gors ddigysur'?
3. Beth oedd un o'r bechgyn wedi ei ddal yn ei sach?
4. Beth gafodd Ellis gan Maggie yn ei barsel o'r Ysgwrn?

GWEDDILL Y BENNOD

1. Ym mha drefn fydden nhw'n darllen llythyrau Ellis?
2. Ble oedd y milwyr erbyn hyn yn ôl Tada?
3. Beth, yn ôl Lora, oedden nhw'n galw'r ardal lle'r oedd ymladd yn digwydd (dau air Saesneg)?
4. Beth wnaeth Ellis i wneud Jini'n falch?
5. Beth oedd enw tad Hywel?
6. Pam mae tad Lora wedi bod yn teimlo'n euog?
7. Pam mae mam Hywel yn dal i gadw esgidiau gwaith Gruff Wmffra wrth y drws?
8. Sut ydyn ni'n gwybod fod Dodo Citi wedi derbyn fod Hywel a Lora mewn perthynas bellach?

## 20.

1. Roedd y brwydro yn Ypres wedi bod yn canolbwyntio ar gipio ble oddi wrth y gelyn?
2. Beth oedd dyddiad y frwydr fawr?
3. Pam nad oedden nhw'n credu popeth yn y papurau erbyn hynny?
4. Pwy ddywedodd wrth Anni fod Jini wedi derbyn llythyr gan Ellis?
5. Beth oedd y newyddion da roedd Hywel a'r teulu wedi ei gael?
6. Ar beth oedd Anni wedi sylwi yn y llythyr a gafodd Jini gan Ellis – beth oedd wedi ei gwneud yn ofidus?
7. Ar ôl i Jini a Citi adael gyda'u newyddion da, pwy ddaeth i'r fferm?
8. Pwy agorodd yr amlen?
9. Beth yw brawddeg olaf y bennod (am y sêr)?

## MEDI 1918.

1. Beth oedd Anni'n mynd i syllu arni'n aml yn y parlwr?
2. A oedd Ifor, tad Lora, yn mynd i briodas Hywel a Lora?
3. Beth mae mam Anni yn mynd i'w 'nôl o'r Beibl er mwyn i Lora ei gael?
4. Atgof o bwy fydd y gadair?
5. Beth mae Anni'n ei weld ar y llawr wrth fynd i'r briodas a beth mae'n ei wneud gyda hi?

# Atebion 'Cwis manylion bach'

## 1.

1. telegram (yn dweud bod Ifor yn dod adref)
2. Lloyd George
3. Lora tin iâr
4. annwyd/ peswch
5. am nad oedd hi wedi ei helpu a siarad ar ei rhan pan oedd Wil yn ei phoeni
6. roedden nhw'n goch am ei bod hi'n crio
7. mab Lloyd George

## 2.

1. Gwen Jones
2. Ellis
3. Ben – ymladd yn y rhyfel yn Ffrainc
4. dim digon o waith i'r ddau ar y fferm yn yr Ysgwrn
5. Y Bermo
6. am fod Ellis wedi penderfynu ei fod yn mynd i'r rhyfel
7. Stiniog (i roi ei enw i lawr)

## 3.

1. yn aros gartref i warchod Jim; mam ddim yn gallu fforddio dau diced
2. pump oed
3. '*Over the top lads... over the top*'
4. na – dim ond ei fod ar ei ffordd adre
5. saethu ei hun yn ei droed
6. ei hances les newydd
7. Ellis wedi ei roi iddi – wedi dod ag e iddi ar ôl bod yn Stiniog yn 'listio' (ymuno â'r fyddin)

## 4.

1. gwobr am ysgrifennu englyn
2. Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
3. yr awdl (teitl – Yr Arwr)
4. ysgrifennu barddoniaeth – yr awdl; cerddi i gofio am fechgyn oedd wedi eu lladd
5. Hedd Wyn
6. Bob, ei frawd
7. sanau

## 5.

1. Maggie
2. gwraig y gweinidog
3. ddim eisiau iddi weld Ifor
4. am fod Lora'n byw mewn tŷ ar ochr y stryd – stopio pobl rhag busnesu
5. eira – fel na fyddai'r trên yn gallu mynd ag Ellis i Lerpwl
6. wedi gweld ei dad – golwg ofnadwy arno
7. Ellis

# Atebion 'Cwis manylion bach'

## 6.

1. Wil Ffurat
2. ddim yn gallu sillafu'r gair *Gallipoli*
3. Hywel Humphrey Jones
4. y Band of Hope
5. teimlo'n euog ei bod yn cael meddyliau hapus (cwrdd â Hywel) tra bo Lora'n poeni am ei thad
6. Ellis wrth Anni
7. oedd

## 7.

1. Mam
2. Tada
3. Gwlad Belg
4. Ifor, tad Lora
5. i fynd lawr y grisiau i siarad gydag Ellis
6. 'Yr Arwr'
7. y wawr

## 8.

1. peidio ag yfed alcohol
2. llun cwmwl gwyn ar un ochr (Duw yn gwenu ynddo) a chwmwl du ar yr ochr arall (wyneb diafolaidd coch yn gwgu ynddo)
3. Harlech
4. chwe mis
5. y Somme (Brwydr Coedwig Mametz)
6. ei nain
7. cau drws y siambr/ ystafell wely

## 9.

1. Bob ac Ifan
2. Litherland
3. pennill ar gyfer ei phen-blwydd
4. 29 Ionawr 1917
5. eli
6. trwy welltyn
7. rhwng cloriau'r Beibl mawr

## 10. LLYTHYR IFOR

1. Coedwig Mametz
2. 1916
3. Ted Bach, Park Place
4. Iori
5. Ted Bach, Park Place
6. ceffylau'n gweryru a marw; gynnau; sgrechfeydd; milwyr mewn poen; swyddogion yn gweiddi
7. Gruff
8. do

# Atebion ‘Cwis manylion bach’

## Cwis – dyma’r atebion. Beth yw’r cwestiwn?

(Mae nifer o gwestiynau eraill yn bosibl hefyd – dyma awgrymiadau)

### 11.

1. Beth wnaeth Anni ar ôl darllen y llythyr?
2. Beth oedd Dodo Citi wedi gofyn i Enid ac Anni ei ’nôl iddi o’r siop?
3. Pa anifail oedd â’i lygaid yn syllu ar Anni o siôl ffwr Gwen Jones?
4. Beth wnaeth Anni ddwyn oddi ar gownter y siop?
5. I bwy oedd Anni am roi’r bag yn anrheg?
6. Beth oedd enw gwraig y siop?
7. I ble gwthiodd Anni Wil Ffurat am ei bod hi wedi cael llond bol ar ei siarad bras?

### 12.

1. Beth roddodd Anni yn anrheg i Enid ar ei phen-blwydd yn y diwedd?
2. Sut oedd Anni’n teimlo am y bag bach melfed erbyn hyn?
3. Beth oedd Lora wedi gorfod gwneud er mwyn gallu helpu ei mam nawr bod ei thad yn sâl?
4. Sut oedd Anni’n teimlo pan fyddai’n gweld Hywel a Lora gyda’i gilydd?
5. Beth oedd y gwaith oedd Ifan a Bob yn ei wneud ar y fferm?
6. Pwy welodd Anni’n rhoi’r bag yn ôl?
7. Beth oedd neges Mrs Lloyd i Anni?

### 13.

1. Pam mae bechgyn y ffermydd yn cael dod adref am ychydig?
2. Ble oedd y gwersyll hyfforddi?
3. Beth alwodd Dodo Citi ei mab, Jim, pan gollodd ei thymer?
4. Beth oedd Lora a Hywel eisiau gwneud pan fyddai Lora’n un ar bymtheg?
5. Gan nad oedden nhw wedi dod o hyd i gorff tad Hywel, beth oedd mam Hywel yn ei gredu?
6. Pwy ddaeth â’r newyddion i Anni fod Ellis wedi cyrraedd adref?
7. Beth addawodd Anni wrth Lora ac Hywel?

# Atebion ‘Cwis manylion bach’

## 14.

1. amser prysur ar y fferm - aredig
2. tusw o flodau - briallu
3. Gwenfron a mi
4. cwpwl mewn cariad ac yn tyfu’n hen gyda’i gilydd
5. ail
6. Elsyn
7. Y Bermo

## 15.

1. am nad oedd mam Lora am iddi weld Hywel
2. rhoi llythyr i Hywel
3. ei daflu i’r afon
4. geiriau Mrs Lloyd y Siop
5. ei roi i Hywel

## 16.

1. ar ben y grisiau
2. Ellis yn mynd yn ôl i Litherland
3. i Ffrainc
4. i’r Eisteddfod yn Birkinhead i ’nôl y gadair
5. aros am Ellis a gweddïo y daw adre’n ddiogel
6. o dan y dillad gwely

## 17.

1. Wil Ffurat
2. Rouen
3. Southampton
4. milwr tenau yn chwysu
5. hen shell
6. cariwr – cario parseli a negeseuon
7. dwyn y bag bach melfed
8. na fyddai ei thad yn gallu gwella tra byddai hi’n gweld Hywel
9. Gwen Jones
10. Tŷ’n Rhos

## 18.

1. cerdded yn gyflym gyda chamau bach. Edrych ar y llawr. Siarad â’i hun.
2. Hywel
3. yn y gadair yn y gornel (yn y cysgod)
4. Ifor, tad Lora
5. Ted bach, Park Place
6. Coedwig Mametz (Y Somme)
7. ‘Gruff Wmffra’
8. i freichiau ei dad

# Atebion 'Cwis manylion bach'

## 19.

LLYTHYR ELLIS

1. Gwlad Belg
2. bombardio (bomio'r ardal er mwyn ceisio lladd llawer o'r Almaenwyr cyn ymosod go iawn)
3. llygoden fawr
4. cacen (gyda chyrains ynddi)

GWEDDILL Y BENNOD

1. Tada'n gyntaf. Wedyn Mam. Wedyn pawb arall.
2. Ypres
3. y *front line*
4. danfon yr awdl i'r Eisteddfod
5. Gruff Wmffra
6. am nad oedd wedi edrych ar ôl Gruff ac achub ei fywyd
7. disgwyl y byddai'n dod adref
8. wedi gwahodd Hywel i de

## 20.

1. Passchaendaele
2. 31 Gorffennaf 1917
3. sylweddoli mai propaganda oedd e/ celwyddau
4. Gwen Jones
5. bod tad Hywel yn fyw
6. roedd dyddiad y llythyr CYN 31 Gorffennaf 1917 - cyn y frwydr fawr lle collodd llawer o filwyr eu bywydau
7. negesydd gyda thelegram
8. Tada
9. 'Dwi'n edrych i fyny, ond mae'r sêr i gyd wedi'u diffodd.'

## MEDI 1918.

1. y gadair a enillodd Ellis yn Birkinhead
2. oedd
3. copi o'r gerdd 'Gwenfron a mi'
4. Ellis/ Hedd Wyn. Hefyd, pob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd yn y rhyfel
5. carreg fach wen – ei gadael ar y llawr

# Craffu ar y broliant

**Disgrifiwch yr hyn a welwch ar gefn y nofel.**

Faint o wybodaeth gewch chi yma am y nofel?

Pam dewiswyd y dyfyniad o'r nofel (darn italig) i'w roi ar y cefn?

Ydy'r broliant yn gwneud i'r darllenydd eisiau darllen mwy?


**DISGRIFIO. MYNEGI BARN. ESBONIO. TRAFOD.**

'NOFEL YSGYTWOL AM FARDD ENWOCAF CYMRU, HEDD WYN.'

Beth sy'n 'ysgytwol' am y nofel?

Ai nofel am Hedd Wyn yw hi yn bennaf?

Y CYNLLUN A'R CYFLWYNIAD



*"Edrych, Anni," meddai Ellis, "edrych ar y sêr. Edrych ar y miloedd o glystyrau; fedar neb na dim heblaw am y wawr ddiffodd y sêr, sti. Pan fydda i yn Litherland, ac os bydd yn rhaid i mi fynd i'r ffosydd, Anni, dwi am i ti edrych ar y sêr, ac mi wna inna 'run fath. Fedar neb ddiffodd y sêr. Neb."*

Mae Ellis yn gorfod mynd yn filwr, fel degau o fechgyn ifainc eraill ardal Trawsfynydd adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Ond mae Anni'n edrych ar y sêr bob nos ac yn ysu am i'w brawd ddod adre i'r Ysgwrn, yn enwedig ar ôl gweld effaith erchyll yr ymladd ar dad Lora, ei ffrind gorau. Mae gwobr bwysig yn aros am Ellis, y bardd, os daw adre'n ddiogel...

Nofel ysgytwol am fardd enwocaf Cymru, Hedd Wyn.

Merch o Ardudwy yw Haf, wedi ei magu dros y Rhinogydd o Drawsfynydd a'r Ysgwrn. Bellach mae'n byw yn Llanuwchllyn ac yn gweithio yn y byd addysg pan nad yw hi'n ysgrifennu. Pan aeth ar daith i Wlad Belg ac i dref fechan Ieper, neu Ypres, cafodd ei syfrdanu gan y storïau y tu ôl i'r miloedd o feddi gwynion sydd yno ym mynwentydd y Rhyfel Mawr. Dyna, yn syml, a ysgogodd Haf i ysgrifennu *Diffodd y Sêr*.

Y DYFYNIAD (darn italig)

'FEDAR NEB NA DIM HEBLAW AM Y WAWR DDIFFODD Y SÊR, STI.'

MAE GWOBR BWYSIG YN AROS AM ELLIS, Y BARDD, OS DAW ADRE'N DDIOGEL...

Beth yw'r wobr? Beth yw effaith yr elipsau?

Y NOFELYDD

Beth wnaeth iddi fod eisiau ysgrifennu'r nofel?

POBL A LLEOEDD – pwy?

Tasg ysgrifennu:

Cynlluniwch ac ysgrifennwch froliant newydd i'r nofel hon.

Bydd angen i chi ddewis dyfyniad pwysig ac ysgrifennu crynodeb (heb ddweud gormod). Ceisiwch ddenu darllenwyr.

EICH BARN AR Y BROLIANT?

A ydy hi'n glir i chi mai'r un person yw Ellis a Hedd Wyn?

# Craffu ar y clawr

**Disgrifiwch yr hyn a welwch.**

Pam dewiswyd y delweddau a'r lliwiau hyn?

Pwy yw'r bobl yn y llun?


Pa effaith sy'n cael ei chreu?

**BETH? PWY? PAM?**

LLIW

TEITL

Y CYNLLUN




CEFNDIR

ARDDULL Y LLUN

Y MILWR

Y FERCH

# Cytuno? Gwaith meddwl!



Nodwch a ydych chi'n: cytuno'n llwyr ✓✓ cytuno i raddau ✓anghytuno i raddau × anghytuno'n llwyr ××

Byddwch yn barod i roi rhesymau dros eich dewis.

| | **Chi (cyn trafod)** | **Grŵp** |
|---|---|---|
| Roedd y rhyfel wedi newid bywyd pobl Trawsfynydd yn llwyr. | | |
| Nofel drist yw *Diffodd y sêr*. | | |
| Does dim hiwmor yn y nofel. | | |
| Mae *Diffodd y sêr* yn nofel dda. | | |
| Ellis Evans yw prif gymeriad y nofel. | | |

# Cytuno? Gwaith meddwl!



Nodwch a ydych chi'n: cytuno'n llwyr ✓✓ cytuno i raddau ✓anghytuno i raddau × anghytuno'n llwyr ××

Byddwch yn barod i roi rhesymau dros eich dewis.

| | Chi (cyn trafod) | Grŵp |
|---|---|---|
| Roedd Ellis yn gymeriad llawn hwyl a sbri bob amser. | | |
| Dewis Ellis oedd enlistio yn y fyddin. | | |
| Roedd Ellis yn gweithio'n galed ar y fferm. | | |
| Ellis oedd ffefryn ei fam. | | |
| Dau berson gwahanol oedd Ellis Humphrey Evans a Hedd Wyn. | | |

# Cytuno? Gwaith meddwl!



Nodwch a ydych chi'n: cytuno'n llwyr ✓✓ cytuno i raddau ✓anghytuno i raddau × anghytuno'n llwyr ××

Byddwch yn barod i roi rhesymau dros eich dewis.

| | **Chi (cyn trafod)** | **Grŵp** |
|---|---|---|
| Roedd bywyd yn ddiflas a digalon i Anni. | | |
| Gwen Jones yw cymeriad mwyaf annifyr y nofel o bell ffordd. | | |
| Roedd Anni'n deall yn iawn beth oedd yn digwydd yn y rhyfel. | | |
| Roedd Dodo Citi'n ddiamynedd. | | |
| Roedd Lora ac Anni'n ffrindiau da. | | |

# Cardiau trwco/ffeirio

## I'r athro:

Mae hwn yn weithgaredd da ar gyfer dechrau gwers a chyflwyno geirfa gwbl newydd nad yw wedi cael ei hegluro i'r dosbarth o'r blaen. Dylai gymryd tua 5 munud (ond yn hwy y tro cyntaf gan fod angen egluro'r drefn ac ymgyfarwyddo). Mae modd newid y cwestiynau/ atebion ar gyfer gwersi eraill.

PARATOI

- Bydd angen llungopïo tri neu bedwar copi er mwyn gwneud y cardiau a sicrhau copïau i bawb.
- Torrwch y 'cardiau' a'u gludo gyda'r cwestiwn ar un ochr a'r ateb ar yr ochr arall. Does **dim** angen cwestiwn gwahanol i bob aelod o'r dosbarth. Mae'n fwy effeithiol pan fydd yr un cerdyn gan sawl disgybl ac felly mae 8 cwestiwn yn ddigonol.
- Bydd pob aelod o'r dosbarth yn cael cerdyn a byddant yn sefyll a chrwydro'r dosbarth ar gyfer y gweithgaredd.

CAM 1

- Mae pob disgybl yn mynd at ddisgybl arall.
- Mae disgybl 1 yn darllen ei gwestiwn i ddisgybl 2. Pa un a ydy disgybl 2 yn gwybod ai peidio, mae disgybl 1 yn darllen yr ateb sydd ar gefn y cerdyn ac mae'r llall yn gwrando. Yna mae disgybl 2 yn darllen ei gwestiwn yntau ac mae'n darllen yr ateb ar y cefn.
- Maen nhw'n cyfnewid cardiau ac yn symud ymlaen at ddisgyblion newydd gyda'u cardiau newydd.

CAM 2

- Mae gan bob un gerdyn newydd nawr ac mae'r broses yn cael ei hailadrodd drosodd a throsodd.
- Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn cael gwybodaeth newydd ond hefyd byddant yn siŵr o gael cwestiynau y byddan nhw wedi eu gofyn yn gynharach ac felly'n gwybod yr ateb. Rhaid iddynt geisio rhoi'r ateb yn llawn. Bob tro, rhaid i'r un sy'n gofyn y cwestiwn ddarllen yr ateb hefyd er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth.

CAM 3

- Cwis dosbarth i wirio eu bod yn gwybod yr atebion.

Beth oedd y

Band of Hope?

Dyma oedd y Band of Hope...

Cyfarfod arbennig i blant a phobl ifanc yn y capel. Roedden nhw'n addo peidio ag yfed alcohol.

Pwy oedd

Lloyd George?

Dyma pwy oedd Lloyd George...

Prif weinidog Prydain o 1917 ymlaen. Roedd e'n Gymro Cymraeg.

Beth oedd

enlistio (listio)?

Dyma oedd enlistio (listio)...

Rhoi eich enw er mwyn ymuno gyda'r fyddin.

Beth oedd

Litherland?

Dyma beth oedd Litherland...

Gwersyll hyfforddi y tu allan i Lerpwl. Aeth Ellis yno.

Beth yw

awdl?

Dyma yw awdl...

Darn o farddoniaeth hir mewn cynghanedd. Mae'n rhaid ysgrifennu 'awdl' er mwyn ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Beth yw

burum?

Dyma yw burum...

Mae'n cael ei roi mewn bara er mwyn gwneud iddo godi.

Beth yw

aredig?

Dyma yw aredig...

Y tir yn cael ei droi a'i baratoi ar gyfer plannu. Roedd teulu Ellis yn aredig gyda cheffylau.

Beth yw

propaganda?

Dyma yw propaganda...

Gwybodaeth yn cael ei chyflwyno er mwyn gwneud i bobl gefnogi un ochr yn arbennig.

# Adolygu cymeriad

## Ellis

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
|---|---|
| Caredig | |
| Anhrefnus | |
| Creadigol | |
| Difrifol | |
| Hwyliog | |
| Aeddfed | |
| Dewr | |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad Ellis. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae Ellis yn bwysig yn y nofel?

- 
- 
- 

# Adolygu cymeriad

## Anni

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
| --- | --- |
| Ofergoelus | |
| Ufudd | |
| Caredig a thyner | |
| Gofidus<br>Poeni am bethau | |
| Dychymyg byw | |
| Deallus a chraff | |
| Eiddigeddus | |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad Anni. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae Anni yn bwysig yn y nofel?

- 
- 
- 

# Adolygu cymeriad

## Lora

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
|---|---|
| Penderfynol | |
| Cryf | |
| Unig | |
| Aeddfed | |
| Caredig | |
| Dewr | |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad Lora. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae Lora yn bwysig yn y nofel?

- 
- 
- 

# Adolygu cymeriad

## Tada

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
|---|---|
| Ddim eisiau gweld newid | Ddim yn hoffi peiriannau newydd. Ddim eisiau gweld ceir yn dod i Drawsfynydd. Eisiau llonydd i barhau i ffermio yn yr un ffordd.<br>'Hen dacla peryg' mae o'n galw pob peiriant. |
| Ddim yn dangos emosiwn | Mae'n amlwg ei fod yn caru ei deulu i gyd ond doedd e ddim yn dangos ei deimladau. Cyn i Ellis fynd i ffwrdd, wnaeth e ddim rhoi ei freichiau o'i gwmpas, er enghraifft.<br>'Dwi'n meddwl fod Tada eisiau ei gofleidio fo hefyd ond wnaeth o ddim.' |
| Caredig | Cynnig gwaith i Ifor ar y fferm ar ôl iddo gael ei anaf. |
| Cefnogol i Ellis a'i farddoniaeth | Roedd e'n annog Ellis i orffen ysgrifennu'r awdl ac eisiau iddo fynd â'i bapurau gydag e i'r fyddin er mwyn iddo gario ymlaen. Er bod Ellis wedi dod adref i Litherland i helpu ar y fferm am gyfnod, doedd e ddim yn gorfod helpu llawer. Roedd ei dad yn gadael iddo weithio ar ei awdl yn y tŷ ac roedd e'n atgoffa Ellis iddo gael yr ail wobr y flwyddyn gynt a bod angen cadair newydd arnynt! |
| Pennaeth y teulu | Tada oedd yn darllen llythyrau Ellis gyntaf bob tro ac yna gweddill y teulu. |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad Tada. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae Tada yn bwysig yn y nofel?

- 
- 
- 

# Adolygu cymeriad

## Gwen Jones

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
|---|---|
| Cas a sbeitlyd | Mae'n hoffi gweld pobl yn teimlo'n anghyfforddus ac annifyr e.e. mae'n tynnu sylw Mrs Lloyd at y ffaith bod Anni'n rhoi'r bag bach melfed yn ôl yn y siop.<br>'Roedd hi fel tasa hi'n fy herio, yn gwneud hwyl am fy mhen, a'i cheg ar hanner tro sbeitlyd.' |
| Chwerw | Mae ei mab Ben yn filwr yn Ffrainc ar ddechrau'r nofel ac mae'n chwerw bod pobl fel Ellis yn dal gartref a heb enlistio. Hefyd, mae'n chwerw bod Ifor yn cael dod adref tra bod Ben yn dal allan yn Ffrainc (er bod Ifor wedi ei anafu). |
| Busneslyd | Eisiau gwybod mwy am Lora ar ddechrau'r nofel – holi Anni. Mae ei sgwrs yn llawn cwestiynau er mwyn cael gwybod mwy am bobl eraill. |
| Yn meddwl ei hun yn bwysig | Hi yw'r unig berson yn y nofel sy'n gwisgo'n grand. Mae'n gwisgo siôl ffwr (gyda wyneb llwynog) wrth fynd i de i'r Ysgwrn ac wrth siopa yn y pentref. (Roedd gan fam Anni siôl ffwr hefyd ond doedd hi ddim yn ei gwisgo'n aml.) |
| Cario clecs | Mae'n gweld Lora yn gadael nodyn i Hywel yn y clawdd ac yna mae'n 'martsio' yn syth at Dodo Citi i ddangos y nodyn iddi. (Doedd Gwen Jones ddim yn poeni bod Dodo Citi dan straen mawr yn barod!)<br>Hi sy'n dweud wrth Anni bod Jini wedi cael llythyr oddi wrth Ellis – yn mwynhau dangos ei bod yn gwybod cyn pawb arall. |
| Dauwynebog | Mae hi eisiau gwybod pethau gan bobl eraill ond nid yw hi'n rhannu dim. Mae'n mynd i de a derbyn jam gan fam Anni ond nid yw'n rhoi dim. Mae'n casglu arian at fynd â neges Duw i wledydd eraill (y 'genhadaeth') ond nid yw'n garedig tuag at bobl yn ei phentref ei hun.<br>'Does neb yn cael eu gwadd i'r tŷ gan Gwen Jones.' |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad Gwen Jones. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae Gwen Jones yn bwysig yn y nofel?

- 
- 

# Adolygu cymeriad

Enw: ____________________

| Nodwedd cymeriad | Tystiolaeth o'r nofel |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Pa nodweddion yw'r rhai pwysicaf? Dewiswch **dair** ohonynt wrth drafod cymeriad. (Rhowch ✓ wrth eu hymyl.)

Pam mae ________________ yn bwysig yn y nofel?

- 
- 
- 

# Adnabod nodweddion arddull

'...uwch fy mhen gallwn glywed sŵn cwyno dau hen fwncath. Gwyliais y ddau aderyn yn cylchu, rownd a rownd, yn nesáu at eu hysglyfaeth. Dechreuais grynu yno yng nghanol gwres mis Awst wrth i gysgod eu hadenydd anferth ddod rhyngof i a'r haul.' – tud. 119

| Enw'r nodwedd arddull | Enghraifft | Effaith |
|---|---|---|
| symbol | | |
| cyferbyniad | | |
| ailadrodd | | |

# Craffu ar y geiriau

Darllenwch y llinell ganlynol ac atebwch y cwestiynau.

> Ond bydd hi yma hefyd yn atgof o bob mab, brawd, gŵr a chariad a gollwyd ym mrwydrau pobl eraill.' (tud. 122)

Beth neu pwy yw'r 'hi' yn y frawddeg hon?

a) Y rhyfel
b) Y Beibl
c) Jini
ch) Y gadair

Pa nodwedd arddull a welir yma? Dewiswch yr ateb gorau:

a) cyflythreniad
b) ailadrodd
c) rhestru
ch) trosiad

Pa effaith sy'n cael ei chreu gan y nodwedd arddull hon?

a) pwysleisio bod Hedd Wyn yn perthyn i bawb
b) pwysleisio bod y bechgyn a laddwyd i gyd yn perthyn i rywun a bod llawer ohonynt
c) dangos bod llawer o aelodau mewn teulu
ch) creu llun yn y meddwl

Pa un o'r brawddegau isod sy'n dweud orau beth yw neges y geiriau yn y blwch uchod?

a) Mae'n dangos bod y gadair wedi ei cholli.
b) Mae hanes y gadair yn drist am fod cymaint o bobl wedi marw.
c) Mae'r gadair yn cynrychioli pob bachgen a fu farw yn ddiangen.
ch) Pobl eraill oedd yn ymladd.

**Ysgrifennwch baragraff byr yn dweud pam mae'r frawddeg yn y blwch uchod yn effeithiol (RHAID enwi nodwedd arddull, dyfynnu enghraifft o'r nodwedd a'i thrafod). Gallwch ddefnyddio'r atebion uchod i'ch helpu:**

- **esboniwch beth sy'n cael ei ddweud, pryd a gan bwy**
- **enwch nodwedd arddull a dyfynnwch**
- **dywedwch a ydy'r nodwedd yn effeithiol**
- **pa deimlad sy'n cael ei greu?**

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

# Geiriau dieithr?

Mae iaith y nofel yn ogleddol iawn ac mae tafodiaith Sir Feirionnydd yn amlwg ynddi. Rydyn ni'n gyfarwydd â chlywed geirfa ac idiomau Cymraeg gwahanol ar y radio a'r teledu, ond efallai y bydd rhai pethau yn ddieithr i chi yn y nofel os ydych yn dod o ran arall o Gymru.

Mae ugain gair fan hyn. Chwiliwch am ragor yn y nofel.

| **Tafodiaith Sir Feirionnydd** | **Iaith safonol/ esboniad** |
|---|---|
| mi ddyliwn i | mi feddyliwn i / rwy'n credu / rwy'n meddwl |
| crydcymala | crydcymalau/ gwynegon/ *rheumatism* |
| cwffio | ymladd |
| hwda | cymer hwn |
| jolihoetian | mynd i rywle i fwynhau |
| yli | edrych |
| tynnu stumiau | tynnu wynebau |
| cyboli | siarad lol neu ddwli |
| edrych yn guchiog | edrych yn sarrug |
| ffeirio | cyfnewid |
| sgrialu | mynd yn gyflym |
| fferau | pigyrnau |
| sneipan | *bogey* |
| paldaruo | siarad llawer |
| ffrom | ewyn |
| dod i 'nghwfwr i | dod i gyfarfod â fi |
| pethau da | losin, da-da, fferins |
| cribin | rhaca / *rake* |
| allt | rhiw |
| llus | ffrwythau bach glas tywyll/ *bilberries* |

# Cydnabyddiaethau

## Lluniau

**Llythyr gan Ellis**: © BBC. t.6 http://goo.gl/gdG2M7
**Capel**: © Eric Jones. t.9 http://goo.gl/UXYKB5
**Beibl**: © Dafydd Watcyn Williams. t.9
**Ceirch**: © Agronom ar Wikimedia Commons. t.10 http://goo.gl/dSPsZg
**Llaeth a menyn**: © Mushpot ar Wikimedia Commons. t.11. http://goo.gl/YNqVjl
**Licrish**: © Helen Rikard, Pikaluk from UK ar Wikimedia Commons. http://goo.gl/wq3dxv
**Ffermio**: © whatsthatpicture ar Wikimedia Commons. t.13 http://goo.gl/eFUBlw
**Cerdyn post Yr Ysgwrn**: © Gwasanaeth Archifau Gwynedd. t.15 http://goo.gl/hgbFNa
**Rhaglen Eisteddfod 1917:** © Eisteddfod Genedlaethol Cymru drwy garedigrwydd Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor (Bangor Ms 32512). t.15 http://goo.gl/HQe3Ot
**Y Gadair Ddu**: © Alan Fryer dan drwydded *Creative Commons*. t.15 a t.25 http://goo.gl/GJMmpS
**Yr Ysgwrn**: © Alan Fryer dan drwydded *Creative Commons*. t.25 http://goo.gl/MtCnZh
**Tribiwnlys**: © Picture Postcards from the Great War 1914-1918. t.25 http://goo.gl/EzyKeA
**Litherland**: © Ronnie Cusworth. t.25 http://goo.gl/h3VB1d
**Bedd Hedd Wyn**: © David Edgar. t.25 http://goo.gl/s0rZeM
**Blodau**: © Richard Gillin. t.25 http://goo.gl/2ZDVMF
**Gweithio ar y fferm**: © Elin Williams. t.25
**Ffasiwn**: © kristine. t.42 http://goo.gl/5b5LPH
**Car:** © Lake Roosevelt National Recreation Area. t.43 http://goo.gl/wyBu4p

Diolch i'r **Lolfa** am eu caniatâd i gynnwys dyfyniadau byr o'r nofel ac am gael defnyddio clawr y gyfrol yn y gwaith hwn.

**Mae'r adnodd hwn wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r deunyddiau'n rhoi cyflwyniad i brif elfennau'r nofel a dylid eu defnyddio ar y cyd ag adnoddau eraill yn ogystal ag addysgu cadarn yn yr ystafell ddosbarth.**



cbac
wjec